

Gwneud y Rheilffyrdd yn Hygyrch: Cynorthwyo Teithwyr Hŷn ac Anabl

Yn ddilys o 1 Medi 2013

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Disgrifiad o'r rhwydwaith	2
1 Crynodeb o'r polisi	3
2 Cymorth i deithwyr	3
3 Trafnidiaeth hygyrch arall	5
4 Gwybodaeth i deithwyr	6
5 Tocynnau a phrisiau	6
6 Gorsafoedd	8
7 Ar y trŷn	14
8 Gwneud cysylltiadau	16
9 Tarfu ar gyfleusterau a gwasanaethau	17
10 Cysylltu â ni	19
11 Fformatau eraill	19
12 Gwybodaeth am hygyrchedd gorsafoedd	20
13 Adolygiad	21
Atodlen A – Gwybodaeth am orsafoedd a weithredir a hygyrchedd	21
Atodlen B – Gwelliannau a wnaed o ran hygyrchedd yn ein gorsafoedd rhwng 1 Medi 2011 a 31 Awst 2012	21
Atodlen C – Gwelliannau arfaethedig o ran hygyrchedd yn ein gorsafoedd rhwng 1 Medi 2012 a 31 Rhagfyr 2013	22
Atodlen D – Gwybodaeth am gerbydau	23
Atodlen E – Gwelliannau i gerbydau o ran hygyrchedd yn ystod y flwyddyn yn dechrau 1 Medi 2012	25
Atodlen F – Map o'r rhwydwaith	25
Gwybodaeth am hygyrchedd gorsafoedd a chyfleusterau Trenau Arriva Cymru	26

Cyflwyniad

Rydym yn croesawu teithwyr hŷn ac anabl a'r rheiny sydd ag anawsterau symud neu sydd angen cymorth ychwanegol. Nod y ddogfen hon i deithwyr yw'ch cynorthwyo gyda'ch taith ar wasanaethau Trenau Arriva Cymru ac yn ein gorsafoedd. Os oes gennych anawsterau symud neu ofyniad arbennig, bydd y ddogfen yn rhoi cyngor i chi ar y ffordd orau i gael help a chymorth os ydych ei angen.

Rydym wedi ymrwmo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da i'n holl deithwyr a byddwn yn cydweithio'n agos â'n cydweithwyr yn y diwydiant rheilffyrdd a rhanddeiliaid priodol eraill i gyflawni hynny.

Byddwn yn anelu at sicrhau na fydd y safonau hygrychedd sydd ar gael ar rwydwaith Trenau Arriva Cymru'n gostwng ac at gynnal, a lle bo'n bosibl, gwella ein darpariaeth bresennol.

Rydym yn eich gwahodd i gyflwyno'ch sylwadau a'ch awgrymiadau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

Disgrifiad o'r rhwydwaith

Mae Trenau Arriva Cymru yn rhan o Grŵp Arriva, un o brif ddarparwyr cludiant i deithwyr yn Ewrop.

Rydym yn rhedeg gwasanaethau a gorsafoedd yng Nghymru a siroedd y Gororau gan gynnwys:

- Cymoedd y De, Bro Morgannwg a llwybrau maestrefi Caerdydd, gan gynnwys gwasanaethau i Barcfordd Glyn Ebwy;
- Gwasanaethau o Birmingham International i Aberystwyth;
- Gwasanaethau ar Linell Arfordir y Cambrian i Bwllheli;
- Gwasanaethau o Gaer i Crewe;
- Gwasanaethau o Birmingham International i Ogledd Cymru;
- Gwasanaethau o Gaergybi a Llandudno ar hyd arfordir Gogledd Cymru i Fanceinion a Crewe;
- Gwasanaethau o Gaerdydd i Gaergybi;
- Gwasanaethau o Faesteg i Gaerloyw a Cheltenham Spa;
- Gwasanaethau o Dde a Gorllewin Cymru i Fanceinion;
- Gwasanaethau ar "Linell Calon Cymru" o Abertawe i Amwythig (Shrewsbury);
- Gwasanaethau o Abertawe i Aberdaugleddau, Doc Penfro a Harbwr Abergwaun;
- Gwasanaethau o Gaer i Faes Awyr Manceinion.

Fersiwn Saesneg/English language version - Os hoffech gael copi o'r cyhoeddiad hwn yn Saesneg ewch i'r wefan www.arrivatrainswales.co.uk neu cysylltwch â'r adran Cysylltiadau Cwsmeriaid (manyllion yn Adran 10).

If you would like a copy of this publication in English please visit the website www.arrivatrainswales.co.uk or contact Customer Relations – (details in Section 10)

1 Crynodeb o'r polisi

Yng nghwmni Trenau Arriva Cymru, ein nod yw gwneud anghenion pawb yn rhan annatod o'n proses cynllunio, o ddatblygu trenau a gorsafoedd hyd ei gwneud yn haws i ddefnyddio ein rhwydwaith. Byddwn yn ystyried ac yn adolygu addasiadau rhesymol priodol i sicrhau na fydd teithwyr anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol, fel y nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

Rydym wedi ymrwmo i fabwysiadu'r gwasanaethau, y safonau a'r canllawiau a geir yn fersiwn cyfredol dogfen yr Adran Drafnidiaeth "Accessible Train and Station Design for Disabled People: A Code of Practice". Rydym hefyd yn gweithio tuag at gyflwyno a mabwysiadu'r Fanyleb Dechnegol Ewropeaidd ar gyfer Unigolion ag Anawsterau Symud, sydd i fod i gael ei chwblhau erbyn 2020. Os na fyddwn yn gallu bodloni unrhyw un o'r safonau hyn, byddwn yn ymgynghori â'r Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru ar yr adeg gyntaf bosibl yn y broses ddylunio ar ôl ystyried pob dewis arall.

Ein hymrwymiad yw ymestyn cyfleoedd i deithio, a byddwn yn buddsoddi yn y dyfodol fel rhan hanfodol o'n strategaeth o wella parhaus.

Rhoddir hyfforddiant i'r staff i adnabod a chynorthwyo teithwyr sydd ag anghenion ychwanegol a byddwn yn gwella'n barhaus y ffordd y caiff ein gwasanaethau a'n cyfleusterau eu cyflenwi i'r holl deithwyr.

Mae diogelwch wrth wraidd popeth a wnawn; bydd ein staff yn sicrhau bod ein holl deithwyr yn cael y cymorth priodol mae ei angen drwy gydol eu taith, o gynllunio eu taith hyd at gyrraedd eu cyrchfan.

Byddwn yn mynd ati i geisio cynnwys y grwpiau hynny sy'n cynrychioli anghenion amrywiol teithwyr sydd ag anawsterau symud, yn enwedig pan fwriedir adnewyddu gorsafoedd neu drenau.

Lle bo'n bosibl, byddwn hefyd yn rhoi tri mis o rybudd ymlaen llaw o unrhyw newidiadau sylweddol i unrhyw un o'n cyfleusterau presennol.

Caiff y Polisi Amddiffyn Pobl Anabl (PAPA) hwn ei gyflwyno i'r Adran Drafnidiaeth bob blwyddyn i gael ei gymeradwyo. Byddwn yn ymgynghori â'r Adran os byddwn yn ystyried gwneud unrhyw newid i'r polisi hwn, ac ni chaiff unrhyw newid sylweddol ei wneud heb gymeradwyaeth yr Adran Drafnidiaeth.

2 Cymorth i deithwyr

Rydym yn cymryd rhan yn Passenger Assist. Mae'r system hon yn galluogi teithwyr hŷn ac anabl i gadw sedd neu le i gadair olwyn ar drên, i drefnu cymorth ymlaen llaw ac i brynu tocynnau. Yn ogystal â threfnu cymorth i deithio ar wasanaethau Trenau Arriva Cymru, gallwn eich cynorthwyo i drefnu cymorth ar deithiau ar rwydwaith y Rheilffyrdd Cenedlaethol pan rydych chi'n teithio gyda chwmnïau trên eraill. Ar hyn o bryd, ni ellir defnyddio Passenger Assist ar gyfer teithiau rhyngwladol na theithiau i Ogledd Iwerddon neu Weriniaeth Iwerddon.

I drefnu cymorth trwy ddefnyddio Passenger Assist, ffoniwch ni ar **0845 300 3005**. Mae'r llinellau ar agor rhwng 0800 a 2000, saith diwrnod yr wythnos (ac eithrio Rhagfyr 25 a 26), a chodir cyfraddau lleol am y galwadau. Y rhif ffôn testun i drefnu cymorth trwy Passenger Assist yw 0845 758 5469. Gallwch hefyd drefnu cymorth trwy ein gwefan. (www.arrivatrainswales.co.uk/assistedtravel)

Yn ogystal, mae gwybodaeth am wasanaethau trên ac am amserlenni'r Rheilffyrdd Cenedlaethol ar gael dros y ffôn oddi wrth Ymholiadau'r Rheilffyrdd Cenedlaethol ar: **08457 48 49 50** - (24 awr)
08456 04 05 00 – Gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg (7am-10pm)
08456 05 06 00 – Ffôn testun
ac ar wefan Ymholiadau'r Rheilffyrdd Cenedlaethol (www.nationalrail.co.uk).

Codir cyfraddau lleol am y galwadau ffôn.

Rydym yn gwneud yr ymrwymadau canlynol wrth ddarparu cymorth i deithwyr:

- Byddwn yn darparu digon o adnoddau i gynnal Passenger Assist ac i wella perfformiad;
- Ni fyddwn yn mynnu bod teithwyr yn rhoi mwy na 24 awr o rybudd wrth drefnu trwy Passenger Assist (er ein bod ni'n argymhell yn gryf rhoi o leiaf 24 awr o rybudd gan y bydd hyn yn ein galluogi ni i sicrhau bod staff ar gael i ddiwallu anghenion y teithwyr). Fodd bynnag, rydym yn hapus i gynorthwyo ar lai o rybudd pryd bynnag y bo hynny'n bosibl. Ar hyn o bryd, ni ellir defnyddio Passenger Assist ar gyfer teithiau rhyngwladol na theithiau i Ogledd Iwerddon neu Weriniaeth Iwerddon;
- Pan fo cymorth wedi'i drefnu ymlaen llaw trwy Passenger Assist, byddwn yn ei ddarparu yn unrhyw un o'n gorsafoedd â staff yn ystod yr oriau mae trenau i fod i aros ynddynt. (Noder y bydd cymorth sydd wedi'i gyfyngu i'r Tocynnwr yn eich cynorthwyo i fynd ar y trên ac i fynd oddi arno mewn gorsafoedd sydd heb staff, rhai sydd â staff yn y Swyddfa Docynnau'n unig, a rhai lle nad yw staff y plattform yn bresennol yn ystod holl oriau agor yr orsaf). Byddwn yn sicrhau bod oriau staffio gorsafoedd ar gael ar wefan Ymholiadau'r Rheilffyrdd Cenedlaethol.
- Byddwn yn sicrhau, pan fo cymorth wedi cael ei drefnu, y byddwch yn cael eich cynorthwyo i ddod oddi ar y trên yn ei gyrchfan olaf cyn gynted ag sy'n bosibl, ac o fewn 5 munud ar y mwyaf, lle bo hynny'n rhesymol ymarferol. Pan rydych chi'n trefnu cymorth, byddwch yn cael cadarnhad o'r trefniant.
- Pan fo'ch taith gyda Threnau Arriva Cymru yn cynnwys teithio i neu o orsaf â staff a reolir gan gwmni trên arall, staff y cwmni hwnnw fydd yn darparu'r cymorth i fynd ar y trên neu oddi arno ac i fynd i mewn neu allan o'r orsaf honno (Gweler adran 12.2 i gael rhestr o'r gorsafoedd hynny a'r cwmnïau trên sy'n eu gweithredu.)
- Os na allwch drefnu cymorth ymlaen llaw, byddwn yn dal i geisio darparu cymorth lle bo'n bosibl, ond gall hyn gymryd mwy o amser i'w drefnu. Siaradwch ag aelod o staff y plattform, lle bo un ar gael, a byddwn yn ceisio sicrhau y gallwch fynd ar y gwasanaeth yr ydych yn bwriadu ei ddefnyddio neu'r un nesaf sydd ar gael. Os nad oes unrhyw staff plattform, bydd y Tocynnwr yn darparu'r cymorth priodol gan gynnwys darparu ramp os oes angen;

- Byddwn yn sicrhau bod rampiau ar gael, ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn neu deithwyr eraill sydd ag anawsterau symud, mewn gorsafoedd sydd â staff platfform ac ar ein holl drenau;
- Lle bydd taith teithiwr anabl yn cynnwys newid trenau neu gysylltiadau â gwasanaethau cwmnïau trên eraill, byddwn yn sicrhau y gellir trefnu cymorth trwy un man cyswllt Passenger Assist
- Byddwn yn cyflwyno unrhyw newidiadau o ran hygyrchedd gwasanaethau a chyfleusterau mewn gorsafoedd yn brydlon i ddiweddarau Knowledgebase (cronfa ddata gwefan Ymholiadau'r Rheilffyrdd Cenedlaethol) i sicrhau bod gwybodaeth gyfredol ar gael i deithwyr trwy system cynllunio teithio o gwmpas Gorsaf ('Stations Made Easy') y Rheilffyrdd Cenedlaethol (www.nationalrail.co.uk). Mae hon yn rhoi gwybod i deithwyr am unrhyw gyfyngiadau, gan gynnwys rhai dros dro. Bydd y wybodaeth a ddarparwn i "Knowledgebase" yn cynnwys:
 1. Lle bo cyfyngiad ffisegol gan orsaf sy'n atal rhai pobl anabl rhag ei defnyddio;
 2. Lle bo gwaith sylweddol dros dro yn cael ei wneud, sy'n effeithio ar hygyrchedd yr orsaf;
 3. Lle bo newidiadau i orsafoedd yn eu gwneud yn anhygyrch dros dro (e.e. lle nad yw cyfleusterau fel lifftiau neu doiledau mewn gorsafoedd yn gweithio);
 4. Lle na fo cyfleusterau ar drenau sy'n effeithio'n sylweddol ar deithiau teithwyr anabl ar gael, gan gynnwys defnyddio cerbydau anhygyrch ar lwybrau lle mae'r cerbydau'n hygyrch fel arfer, i'r graddau y bo hyn yn rhesymol ymarferol;
- Byddwn yn diweddarau'r system cynllunio teithio o gwmpas gorsaf yn uniongyrchol trwy gysylltu â desg gymorth y system, fel bo'n briodol, pryd bynnag y bo unrhyw newidiadau tymor byr neu newidiadau nas cynlluniwyd yn debygol o gael effaith sylweddol ar allu teithwyr i gwblhau eu teithiau, ac na fyddai hyn yn cael ei gynnwys yn y diweddiad wythnosol i "Knowledgebase". Noder, os na chaiff cymorth a drefnwyd ei ddarparu ar ein gwasanaethau ac yn ein gorsafoedd â staff, y byddwn yn ystyried iawndal priodol.

3 Trafnidiaeth hygyrch arall

Byddwn yn darparu, yn ddi-dâl, gwasanaeth hygyrch addas arall i fynd â chi â'ch cydymaith i'r orsaf hygyrch agosaf neu fwyaf cyfleus, y gallwch barhau â'ch taith ohoni:

- Lle na allwch deithio o orsaf sy'n anhygyrch i chi (oherwydd cyfyngiad ffisegol er enghraifft);
- Lle darperir cludiant yn lle gwasanaethau trên ac mae hwn yn anhygyrch i chi;
- Lle mae yna darfu dros dro ar wasanaethau sy'n gwneud y gwasanaeth yn anhygyrch i chi.

4 Gwybodaeth i deithwyr

Rydym yn cydnabod bod angen i'r wybodaeth a ddarperir i'n holl deithwyr fod yn gywir, yn glir ac yn gyson fel y gallant fod â hyder ynddi.

Mae hyn yn arbennig o wir pan fo taith yn cynnwys newid trên ac mae'n bosibl y bydd teithwyr sy'n cael cymorth angen cael eu sicrhau bod modd i'w taith gyfan gael ei chwblhau heb ormod o anhawster.

Byddwn yn darparu gwybodaeth gyfredol am hygyrchedd ein gorsafoedd a'n trenau ar wefan Ymholiadau'r Rheilffyrdd Cenedlaethol (gan gynnwys 'Stations Made Easy'), yn ogystal â'n gwefan ein hun.

Rydym yn ymrwmo i ddiweddarau'r wybodaeth hon cyn pen 24 awr ar ôl cael hysbysiad o unrhyw newidiadau (ac eithrio penwythnosau). Ein Pennaeth Marchnata yw'r person penodol yn y cwmni sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff y wybodaeth hon ei diweddarau.

Bydd staff mewn gorsafoedd yn gallu gweld y wybodaeth ddiweddaraf, trwy "Knowledgebase", a byddant yn rhoi'r wybodaeth hon i deithwyr ar gais.
(end of bullet points)

Mae gwybodaeth am wasanaethau ar gael mewn print bras a fformat sain o wneud cais dros y ffôn ar 0845 606 1660.

5 Tocynnau a phrisiau

Mae amrywiaeth o brisiau gostyngol ar gael i deithwyr hŷn ac anabl:

5.1 Cerdyn Rheilffordd Person Anabl

Mae'r Cerdyn Rheilffordd Person Anabl (£20 y flwyddyn neu £54 am dair blynedd) yn rhoi gostyngiad o draean oddi ar bris amrywiaeth o docynnau ar draws Rhwydwaith y Rheilffyrdd Cenedlaethol ac yn caniatáu i un cydymaith teithio fynd ar y trên gyda'r un gostyngiad. Edrychwch ar daflen y Rheilffyrdd Cenedlaethol, "Rail Travel Made Easy", sydd ar gael mewn gorsafoedd â staff neu oddi wrth ATOC, i gael mwy o wybodaeth am sut i wneud cais. Mae taflenni hefyd ar gael oddi wrth Ymholiadau'r Rheilffyrdd Cenedlaethol ar 0845 748 4950, oddi wrth ein Llinell Teithio â Chymorth ar 0845 300 3005 neu drwy Ffôn Testun ar 0845 758 5469. Codir y gyfradd leol am yr holl alwadau.

5.2 Teithio heb Gerdyn Rheilffordd Person Anabl

Cynigir gostyngiad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn sy'n teithio heb Gerdyn Rheilffordd Person Anabl ac sy'n aros yn eu cadeiriau, i'r teithiwr ac i un cydymaith teithio fel a ganlyn:

- 34% o ostyngiad ar docynnau Sengl Dosbarth Cyntaf neu Safonol Unrhyw Bryd;
- 50% o ostyngiad ar docynnau Dwyffordd Diwrnod Dosbarth Cyntaf neu Safonol Unrhyw Bryd; neu
- 34% o ostyngiad ar docynnau Dwyffordd Dosbarth Cyntaf neu Safonol Unrhyw Bryd.
- Caiff plentyn sy'n defnyddio cadair olwyn 75% o ostyngiad ar y prisiau hyn.

Cynigir gostyngiad i deithwyr sydd wedi'u cofrestru fel pobl â nam ar eu golwg ac sy'n teithio heb Gerdyn Rheilffordd Person Anabl, i'r teithiwr ac i un cydymaith teithio fel a ganlyn:

- 34% o ostyngiad ar docynnau Sengl Dosbarth Cyntaf neu Safonol Unrhyw Bryd;
- 50% o ostyngiad ar docynnau Dwyffordd Diwrnod Dosbarth Cyntaf neu Safonol Unrhyw Bryd; neu
- 34% o ostyngiad ar docynnau Dwyffordd Dosbarth Cyntaf neu Safonol Unrhyw Bryd.

Fodd bynnag, ni fydd y gostyngiad yn gymwys os yw teithiwr sydd wedi'i gofrestru fel person â nam ar ei olwg ac sydd heb Gerdyn Rheilffordd Person Anabl yn teithio heb gydymaith.

5.3 Cerdyn Rheilffordd Pobl Hŷn

Mae'r Cerdyn Rheilffordd Pobl Hŷn yn un o gynhyrchion y Rheilffyrdd Cenedlaethol sy'n caniatáu i unrhyw un 60 oed a hŷn gael gostyngiad o draean ar BOB tocyn Unrhyw Bryd, Adegau Tawel ac Ymlaen Llaw ar draws rhwydwaith y Rheilffyrdd Cenedlaethol, gan gynnwys Dosbarth Cyntaf, pan gaiff ei gyflwyno wrth brynu tocynnau. Mae yna rai cyfyngiadau ar y defnydd ohono yn ystod oriau brig y bore yn Llundain a De Ddwyrain Lloegr. Cost bresennol y cerdyn yw £28 am flwyddyn neu £65 am gerdyn tair blynedd (ar gael ar lein yn unig). Mae hefyd yn cynnig gostyngiadau gydag amrywiaeth o gwmnïau, o westai i logi ffilmiau. Gallwch gael manylion o'ch swyddfa docynnau agosaf, oddi wrth Ymholiadau'r Rheilffyrdd Cenedlaethol (0845 748 4950) neu ar wefan www.senior-railcard.co.uk.

5.4 Cerdyn Rheilffordd Pobl Hŷn – Llwybrau Lleol Caerdydd a'r Cymoedd

Mae'r Cerdyn Rheilffordd hwn i Bobl Hŷn yn cynnig gostyngiad o 50% ar docynnau Dwyffordd Diwrnod Amserau Tawel (neu docynnau Dwyffordd Diwrnod Unrhyw Bryd os nad yw tocynnau Amserau Tawel yn bodoli) ar lwybrau lleol yn ardal rhwydwaith llwybrau lleol Caerdydd a'r Cymoedd, am gost flynyddol o £5 ar hyn o bryd. Gallwch gael manylion am y cerdyn o'ch swyddfa docynnau leol, o'n Hadran Cysylltiadau Cwsmeriaid (0845 606 1660), trwy e-bost at customer.relations@arrivatrainswales.co.uk neu oddi ar www.arrivatrainswales.co.uk.

5.5 Tocynnau tymor i'r rheiny sydd â nam ar eu golwg

Gall teithiwr sydd wedi'i gofrestru fel person â nam ar ei olwg brynu Tocyn Tymor sy'n ei gynnwys ef ac un cydymaith teithio. Mae'r tocyn yn caniatáu i ddau berson gyda'i gilydd deithio am bris un. Gall y cydymaith teithio amrywio.

5.6 Prynu tocyn

Er y gallwch brynu'ch tocyn yn yr orsaf, efallai y bydd yn haws i chi ei brynu cyn teithio:

- Ar lein - gellir prynu tocynnau ar lein ar www.arrivatrainswales.co.uk;
- Dros y ffôn – gallwch brynu tocynnau a threfnu Passenger Assist ymlaen llaw trwy ffonio 0845 300 3005. Mae'r llinellau ar agor rhwng 0800 a 2000 o ddydd Llun i ddydd Sul a chodir y gyfradd leol am alwadau.

- Mae gwasanaeth ffôn testun ar gael hefyd ar 0845 758 5469 a chodir y gyfradd leol am alwadau.

Gall y tocynnau hyn gael eu postio atoch (caniatewch bum diwrnod gwaith ar gyfer post dosbarth cyntaf). Gallwch hefyd eu casglu o'r swyddfa docynnau yn eich gorsaf leol dwy awr ar ôl i chi eu harchebu (gan ddibynnu ar ei horiau agor). Mae'n bosibl y gallwch hefyd gasglu'ch tocynnau o beiriant gwerthu tocynnau yn yr orsaf y byddwch yn ymadael ohoni. Gofynnwch am y cyfleuster hwn ar adeg archebu'ch tocynnau er mwyn cadarnhau a all y peiriannau gwerthu tocynnau yn yr orsaf lle hoffech eu casglu ddyroddi "tocynnau wrth ymadael".

Gallwch gael manylion am Gardiau Rheilffordd eraill o'r swyddfa docynnau yn eich gorsaf leol, oddi wrth Ymholiadau'r Rheilffyrdd Cenedlaethol (0845 748 4950), oddi wrth ein Hadrannau Cysylltiadau Cwsmeriaid (0845 606 1660), trwy e-bost ar customer.relations@arrivatrainswales.co.uk neu o'n gwefan, www.arrivatrainswales.co.uk.

Os na allwch brynu tocyn yn hawdd yn yr orsaf oherwydd eich anabledd, gallwch dalu yn ystod y daith heb gosb.

6 Gorsafoedd

Pan rydych chi'n cyrraedd gorsaf, rhwch wybod i'r Ddesg Gymorth neu'r Swyddfa Docynnau neu gofynnwch i unrhyw aelod o'r staff am gymorth p'un ai ydych chi wedi trefnu cymorth ai peidio. Rydym yn argymhell, fodd bynnag, os nad ydych chi wedi trefnu cymorth, i chi ganiatáu digon o amser yn yr orsaf cyn bod y trê'n i fod i adael.

Os yw'r ffordd o fynd oddi ar y platfform yn yr orsaf rydych chi'n teithio iddi â chyfyngiad arno neu â grisiau, cewch deithio i'r orsaf hygyrch agosaf neu fwyaf cyfleus a byddwn yn darparu tacsî i'r orsaf rydych chi'n teithio iddi heb gost ychwanegol.

Dylech gadarnhau gyda'r tocynnwr, pan gaiff y tocynnau eu gwirio, nad oes unrhyw gyfyngiadau i'r ffordd o fynd oddi ar y platfform yn eich cyrchfan er mwyn i ni allu gwneud unrhyw drefniadau angenrheidiol eraill.

6.1 Staffio

Mae'r rhan fwyaf o'n gorsafoedd naill ai heb staff neu â staff cyfyngedig (hynny yw dim ond staff swyddfa docynnau sydd yn yr orsaf neu ddim ond staff sydd heb eu hyfforddi ac na chaniateir iddynt roi unrhyw gymorth corfforol). Pan rydych chi'n archebu'ch tocynnau a'ch cymorth, bydd ein Tîm Teithio â Chymorth yn eich cynghori am y gorsafoedd mwyaf addas i'w defnyddio, yn ôl eich anghenion.

Byddwn yn sicrhau bod trefniadau penodol ar gael mewn unrhyw orsaf i deithwyr sy'n cael cymorth, os oes digwyddiad arbennig yn cael ei gynnal gerllaw (yn arbennig yng ngorsafoedd Caerdydd Canolog a Chaer). Ewch i'n gwefan (www.arrivatrainswales.co.uk) neu ffoniwch ein Llinell Teithio â Chymorth i gael manylion (0845 300 3005).

6.2 Gwelliannau i hygyrchedd

Rydym wedi ymrwmo i wella ansawdd cyffredinol ein gorsafoedd i'n teithwyr i gyd. I sicrhau hyn, rydym yn cydweithio'n agos â Network Rail, Llywodraeth Cymru, yr Adran Drafnidiaeth a rhanddeiliaid priodol eraill. Nid yw rhai o'n gorsafoedd yn gwbl hygyrch. Mae ein cronfa ddata'n nodi pa mor hygyrch yw pob gorsaf ar ein rhwydwaith a chaiff ei

defnyddio'n rheolaidd i ddiweddarau gwybodaeth Ymholiadau'r Rheilffyrdd Cenedlaethol. Caiff y gronfa ddata hon ei hadolygu'n rheolaidd a gosodir dyheadau ar gyfer gwella yn nhrefn eu blaenoriaeth. Mae Atodlen A ar ddiwedd y ddogfen hon yn nodi hygyrchedd ein gorsafoedd fel y maent ar adeg cyhoeddi'r llyfryn hwn.

Rydym yn bwriadu gwella hygyrchedd mewn nifer fach o'n gorsafoedd rhwng mis Medi 2013 a mis Medi 2014. Byddwn yn mynd i'r afael â hygyrchedd mewn gorsafoedd eraill nad ydynt yn hygyrch trwy brosiectau mwy hirdymor. Ceir manylion y gwelliannau arfaethedig ar gyfer cyfnod y fersiwn hwn o'r llyfryn yn Atodlen B

Gallwch gael manylion am y cyfleusterau yn ein gorsafoedd ar ein gwefan hefyd (www.arrivatrainswales.co.uk/station_search.aspx) neu wefan Ymholiadau'r Rheilffyrdd Cenedlaethol (www.nationalrail.co.uk/stations_destinations).

6.3 Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn a mynediad heb risiau

Byddwn yn gwneud cymaint ag sy'n bosibl i sicrhau mynediad hawdd i'n holl orsafoedd ac i fynd ar ein trenau. Mae mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn ar gael mewn llawer o'n gorsafoedd, a lle bydd amgylchiadau'n caniatáu, rydym yn ceisio gwella mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i blatfformau o dan gynlluniau eraill mewn gorsafoedd.

Yn ogystal â'r rampiau i gadeiriau olwyn a geir ar bob un o'n trenau, mae rampiau hefyd ar gael yn ein gorsafoedd mwy eu maint sydd â staff.

Mae'r lifftiau yn ein gorsafoedd bellach wedi cael eu haddasu i gael eu defnyddio gan deithwyr ar bob adeg mae'r gorsafoedd ar agor.

Gall nifer o'n gorsafoedd roi benthyg cadair olwyn i chi ei defnyddio yn yr orsaf. Rydym yn eich cynghori i ofyn am y cyfleuster hwn, os oes ei angen, wrth drefnu cymorth. Fodd bynnag, os nad ydych wedi'i drefnu, gallwch hefyd ofyn am y cyfleuster hwn wrth gyrraedd yr orsaf rydych yn ymadael ohoni, ond mae'n bosibl y bydd oedi cyn ei ddarparu. Ar ôl mynd ar y trê, rhowch wybod i'r Tocynnwr eich bod angen defnyddio cadair olwyn yn yr orsaf lle rydych yn newid trenau a/neu yn eich cyrchfan.

6.4 Parcio ceir

Lle bo'r wyneb a'r lle sydd ar gael yn caniatáu hynny, mae gan feysydd parcio pob un o orsafoedd Trenau Arriva Cymru fannau parcio sydd wedi'u dynodi ar gyfer deiliaid y Bathodyn Glas sy'n cydymffurfio â'r gofynion sy'n gyfredol ar adeg eu gosod. Maent yn cael eu darparu mewn lleoliad cyfleus ar wyneb concriid neu darmacadam gydag ymylon gwastad a phalmentydd na ellir llithro arnynt, lle bo'n briodol. Mae'n bosibl y codir tâl am barcio am gyfnod hir (h.y. mwy nag 20 munud) mewn rhai lleoedd.

Rydym yn monitro'r ffordd y defnyddir y manau parcio dynodedig yn rheolaidd i sicrhau na chânt eu defnyddio gan unigolion nad ydynt yn ddeiliaid y Bathodyn Glas. Os bydd hynny'n digwydd, codir ffi cosb arnynt.

Bydd cyfleusterau diogel i godi a gollwng teithwyr yn cael eu hymgorffori yn ein holl gynlluniau ar gyfer meysydd parcio yn y dyfodol. Mae nifer o'n meysydd parcio mwyaf wedi cael dyfarniad Park Mark, ac er mwyn cadw'r dyfarniad cawn ein hail-adolygu gan aseswyr allanol bob blwyddyn.

Mae'r meysydd parcio gerllaw rhai o'n gorsafoedd yn eiddo i awdurdod lleol perthnasol neu i drydydd parti arall. Nid ni sy'n gyfrifol am y meysydd parcio hyn, ac ni allwn ond cynghori'r trydydd partion hyn ar faterion sy'n ymwneud â chydymffurfio â Chod Ymarfer yr Adran Drafnidiaeth.

Os ydych chi'n defnyddio'ch cerbyd eich hun i gyrraedd yr orsaf, ond nad yw'r plattform yn hawdd ei gyrraedd neu os yw'n rhy isel i chi fynd ar drên yn hawdd (sydd hefyd yn golygu y byddai'n beryglus defnyddio ramp i gadeiriau olwyn), rydym yn eich cynghori i ddefnyddio gorsaf arall sy'n gwbl hygyrch. Mae'r tabl o orsafoedd ar ddiwedd y llyfryn hwn yn dangos pa orsafoedd nad ydynt yn gwbl hygyrch a/neu sydd â phlatformau isel ac yn dangos yr orsaf gwbl hygyrch agosaf ar y llinell honno. Mewn ardaloedd lle mae yna nifer o linellau rheilffordd, fel Rhwydwaith Cymoedd Caerdydd, gall staff Passenger Assist awgrymu gorsafoedd hygyrch eraill ar linellau eraill.

Mae mwy o wybodaeth am feysydd parcio ger gorsafoedd ar gael ar ein gwefan.

6.5 Mynedfeydd i orsafoedd

Ni fyddwn yn cau mynedfeydd na gatiâu gorsafoedd yn barhaol os bydd hyn yn arwain at leihau mynediad i bobl hŷn ac anabl at unrhyw blatfform neu gyfleuster, ac eithrio ar ôl ymgynghori â'r Adran Drafnidiaeth, Passenger Focus a grwpiau mynediad lleol, ac ar ôl cael cymeradwyaeth gan yr Adran Drafnidiaeth i wneud hynny. Byddwn hefyd yn ystyried anghenion teithwyr hŷn ac anabl wrth gyfyngu ar fynedfeydd, neu eu cau dros dro, mewn gorsafoedd.

6.6 Gwybodaeth glywedol a gweledol i deithwyr

Mae gan y rhan fwyaf o'n gorsafoedd ffordd o ddarparu gwybodaeth am y gwasanaethau trên. Gan ddibynnu ar y lleoliad, gallai hyn fod yn sgriniau gwybodaeth electronig a/neu gyhoeddiadau cyhoeddus. Yn ein gorsafoedd llai, mae yna Fannau Gwybodaeth i Deithwyr (naill ai seinydd gwasgu botwm neu set law ffôn) neu gyfleuster i wasgu botwm ar ffôn cyhoeddus cyfagos. Erbyn diwedd 2013, ein nod yw y bydd sgriniau gwybodaeth electronig wedi'u gosod yn y rhan fwyaf o'n gorsafoedd. Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn darparu gwybodaeth glir a chyson yn glywedol a/neu'n weledol am ymadawiadau trenau a negeseuon perthnasol eraill, yn enwedig os digwydd oedi neu darfu.

Oherwydd ei fod mor eglur, byddwn yn parhau i ddefnyddio ffont Gwyddor y Rheilffyrdd ar gyfer arwyddion a hysbysiadau mewn gorsafoedd. Defnyddir pictogramau lle bynnag maent yn cynorthwyo â dealltwriaeth gyffredinol.

6.7 Mannau Gwybodaeth ac Arddangosfeydd

Yn ein gorsafoedd mawr, rydym yn darparu Mannau Gwybodaeth â staff sydd wedi'u nodi'n glir ac sydd ar agor yn ystod oriau agor y Swyddfa Docynnau. Maent yng nghyntedd yr orsaf a chânt eu defnyddio hefyd fel manau ymgynnull i deithwyr sydd wedi trefnu cymorth. Mewn gorsafoedd eraill, y Swyddfeydd Tocynnau sy'n cyflawni'r swyddogaethau hyn.

Mae gan yr holl Swyddfeydd Tocynnau a Mannau Gwybodaeth â staff ddolenni sain ac mae gan lawer ohonynt o leiaf un cownter isel neu gownter y gellir addasu ei uchder.

Mae gwybodaeth am gyfleusterau, gwasanaethau a hygyrchedd gorsafoedd ar gael i deithwyr mewn Mannau Gwybodaeth Gorsafoedd, Swyddfeydd Tocynnau, dros y ffôn, ar wefan Trenau Arriva Cymru (www.arrivatrainswales.co.uk/assistedtravel), ar wefan y Rheilffyrdd Cenedlaethol 'Stations Made Easy' (www.nationalrail.co.uk) ac yn y tabl ar ddiwedd y llyfryn hwn. Mae Mannau Gwybodaeth Gorsafoedd a Swyddfeydd Tocynnau hefyd yn darparu gwybodaeth am amserlenni, prisiau, cysylltiadau a chadarnhad o unrhyw gymorth sydd wedi'i drefnu trwy Passenger Assist.

Mae'r staff yn y Mannau Gwybodaeth yn gallu darparu'r wybodaeth fwyaf cyfredol i deithwyr anabl, gan gynnwys gwybodaeth am y gorsafoedd a'r cyfleusterau a ddarperir gan gwmnïau trên eraill, yn ogystal â hygyrchedd unrhyw drafnidiaeth gyhoeddus arall sydd ar gael yn agos i'r orsaf.

Caiff gwybodaeth ychwanegol ei harddangos yn yr holl orsafoedd, yn ymyl neu'n agos i'r mynedfeydd, ar ffurf posteri Amserlen a'r "Posteri Gwybodaeth Ddefnyddiol" sy'n darparu, ymysg gwybodaeth arall:

- manylion cynhwysfawr am yr orsaf, enw a manylion cyswllt Rheolwr yr Orsaf;
- y gwasanaethau sy'n galw yno;
- manylion am ffyrdd o gysylltu â ni am wahanol faterion;
- gwybodaeth am yr ardal;
- ble i gael tacsî;
- ble i gael trafnidiaeth gyhoeddus yng nghyffiniau'r orsaf.

Yn ogystal â'r arddangosfeydd yn ein gorsafoedd a'n Mannau Gwybodaeth â staff, mae gwybodaeth am wasanaethau trên ar gael trwy ein Llinellau Cymorth i Deithwyr.

Mae gwybodaeth amser real ar gael yn ein gorsafoedd â staff ac mae'n cynnwys amserlenni, gwybodaeth am oedi a gwybodaeth am unrhyw ffactorau eraill a allai effeithio ar deithiau.

6.8 Swyddfeydd a Pheiriannau Tocynnau

Ym mhob swyddfa docynnau newydd a swyddfeydd lle gwneir gwaith adnewyddu mawr rydym yn darparu naill ai cownter penodol, neu gownter y gellir addasu ei uchder, i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Mae systemau dolen sain wedi'u gosod yn ein holl swyddfeydd tocynnau ac asiantaethau tocynnau mewn gorsafoedd. Lle bo'n bosibl, gwneir addasiadau i swyddfeydd tocynnau i wella mynediad i'r holl deithwyr.

Darperir peiriannau hygyrch gwerthu tocynnau yn ein holl orsafoedd lle ceir rhwystrau tocynnau, fel y gellir prynu tocynnau pan fo'r swyddfa docynnau ar gau. Mae'r peiriannau hyn yn gwerthu tocynnau sydd â gostyngiad Cerdyn Rheilffordd Person Anabl. Gallwch hefyd gasglu tocynnau sydd wedi'u harchebu ymlaen llaw o'r peiriannau hyn.

Os na allwch brynu tocyn mewn gorsaf cyn dechrau ar eich taith, neu os na allwch ddefnyddio'r peiriant gwerthu tocynnau a ddarperir oherwydd eich anabled, byddwch yn

gallu prynu tocyn ar y trêen neu yn yr orsaf rydych chi'n teithio iddi heb gosb, gydag unrhyw ostyngiadau perthnasol a phriodol.

6.9 Gatiâu Tocynnau

Yn rhai o'n gorsafoedd mae yna rwystrau tocynnau awtomatig. Maent yn cynnwys o leiaf un gât letach i gadeiriau olwyn ac i'r rheiny na allant ddefnyddio'r gatiâu arferol.

Pan na fo staff wrth y gatiâu, cânt eu cloi ar agor i ganiatáu mynediad. Mae pob rhwystr tocynnau awtomatig yn cael ei fonitro gan Deledu Cylch Cyfyng er diogelwch.

6.10 Cymorth gyda bagiau

Pan fo cymorth gyda bagiau wedi cael ei drefnu ymlaen llaw trwy Passenger Assist, bydd ein staff yn cynorthwyo gyda bagiau rhwng mynedfa'r orsaf a'r trêen yn ddi-dâl. Fodd bynnag, cofiwch nad oes gennym ferfâu na bygis trydan yn ein gorsafoedd, felly dylai maint a nifer y bagiau y gellir disgwyl i'n staff eu cario fod yn rhesymol, a rhaid bod modd eu cario i'r trêen neu o'r trêen ar un daith.

Os nad ydych wedi trefnu cymorth ymlaen llaw, byddwn yn ceisio ei ddarparu cyn gynted ag sy'n bosibl, yn amodol ar y staff sydd ar gael. Fodd bynnag, gallai hynny olygu y bydd yn rhaid i chi deithio ar drêen hwyrach na'r un a fwriadwyd.

6.11 Gadael Bagiau

Nid oes cyfleusterau i adael bagiau yn unrhyw un o'n gorsafoedd. Fodd bynnag, yng Nghaergybi, mae gan y cyngor lleol gyfleuster gadael bagiau yn ei adeilad ar Blattform 2.

6.12 Rampiau

Mae gan ein holl orsafoedd â staff rampiau ar y platfformau. Bydd ein staff yn eu defnyddio i'ch cynorthwyo i fynd ar y trêen neu oddi arno, waeth pa gwmni sy'n rhedeg y trêen hwnnw. Yn ogystal, mae gan ein holl drenau (a holl drenau'r cwmnïau trêen sy'n galw yn ein gorsafoedd) rampiau i'w defnyddio mewn gorsafoedd sydd heb staff platfform ac ar adegau pan nad yw staff y platfform yn bresennol.

Yn y gorsafoedd hyn, bydd Tocynnwr neu Gard y trêen yn defnyddio'r ramp ac yn eich cynorthwyo i fynd ar y trêen neu oddi arno. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl na fydd y Tocynnwr neu'r Gard yn gallu'ch cynorthwyo os nad ydych wedi trefnu cymorth trwy Passenger Assist. Rheswm posibl dros hyn yw bod rhywun eisoes yn defnyddio'r lle i gadair olwyn ar y trêen (neu fod y lle wedi cael ei gadw ar gyfer teithio o orsaf arall yn hwyrach yn y daith). Mewn rhai gorsafoedd mae wyneb y platfform yn rhy isel i ddefnyddio ramp, gan fod graddiant y ramp yn rhy serth. Mae hyn yn atal defnyddwyr cadeiriau olwyn rhag gallu mynd ar y trêen neu oddi arno.

Dylai teithwyr â chadair olwyn neu anawsterau symud sydd angen rampiau i fynd ar y trêen neu oddi arno edrych ar y wybodaeth am ein gorsafoedd i sicrhau bod yr orsaf yn addas iddynt. Os nad oes modd defnyddio'r orsaf yn y modd hwn, gallwn drefnu trafndiaeth arall, ond bydd angen digon o rybudd i wneud hynny.

6.13 Cyfleusterau trydydd parti ac arlwyo

Manwerthwyr trydydd parti sy'n darparu'r cyfleusterau arlwyo yn ein gorsafoedd o dan drefniadau tenantiaeth. Wrth i'r cytundebau hyn gael eu hadnewyddu, byddwn yn gweithio

gyda'r tenantiaid newydd i sicrhau eu bod yn darparu cyfleusterau digonol, yn ychwanegol at unrhyw rwymedigaethau statudol sydd ganddynt. Byddwn hefyd yn gweithredu'r polisi hwn fel rhan o'r tenantiaethau manwerthu eraill yn ein gorsafoddedd.

6.14 Platfformau

Rydym yn gweithio gyda Network Rail i sicrhau bod pob platfform sy'n cael ei adnewyddu neu ei adeiladu o'r newydd yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer, gan gynnwys gosod palmentydd botymog cymeradwy. Bydd pob llwybr mynediad i'n trenau a'n hadeiladau yn cael eu hadolygu i sicrhau bod eu mesuriadau mynediad yn cydymffurfio. Mae darpariaeth a chyflwr bolardiau, rampiau, grisiau, lifftiau, canllawiau, lloriau a goleuadau priodol yn cael eu harchwilio fel rhan o'n harolygon rheolaidd o'n gorsafoddedd.

Mae Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n ariannu gosod "twmpathau" ym mhob gorsaf sydd â phlatfform isel, yng Nghymru, i ganiatáu mynd ar drenau ac oddi arnynt gan ddefnyddio rampiau. Lle bo'n bosibl, byddwn yn ceisio sicrhau gwelliannau tebyg yn yr ychydig orsafoddedd sydd gennym yn Lloegr sydd â phlatfformau isel.

6.15 Toiledau

Gellir cael mynediad i doiledau hygyrch yn rhai o'n gorsafoddedd trwy ddefnyddio allwedd y Cynllun Allwedd Cenedlaethol (NKS) (a elwid allwedd RADAR gynt). Rhestrir y lleoliadau yn y Wybodaeth am Orsafoddedd ar ddiwedd y llyfryn hwn. Mae toiledau hygyrch heb gyfleusterau NKS yn cael eu cloi tu allan i'r oriau pan fo staff yn y gwaith; fodd bynnag, rydym yn sicrhau pan fo toiledau yn cael eu gosod, eu hailwampio, neu eu hadnewyddu, y byddwn yn achub ar y cyfle i ddarparu neu wella cyfleusterau i'n holl deithwyr. Bydd rhagor o gyfleusterau NKS yn cael eu cyflwyno lle bo'n briodol.

6.16 Ffonau

Byddwn yn gweithio gyda'n cyflenwyr i sicrhau bod unrhyw ffonau cyhoeddus fydd yn cael eu gosod yn y dyfodol yn diwallu anghenion ein teithwyr, ac y bydd o leiaf un ffôn ym mhob lleoliad ar uchder addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, ac y bydd o leiaf un â doler sain wedi'i gosod ar gyfer teithwyr â nam ar eu clyw. Mae'n bosibl y bydd y cyfleusterau hyn ar gael ar yr un ffôn.

6.17 Seddi mewn gorsafoddedd

Mae gan ein gorsafoddedd amrywiaeth o seddi gwahanol yn yr ystafelloedd aros, ar y platfformau neu mewn cabanau aros. Pan fydd angen adnewyddu seddi, byddwn yn gosod rhai newydd yn unol â gofynion y Cod Ymarfer cyfredol.

6.18 Diogelwch personol

Mewn partneriaeth gyda Network Rail, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid perthnasol, rydym yn parhau i geisio gwella diogelwch personol yn ein gorsafoddedd a'n trenau. Mae teledu cylch cyfyng (TCC) mewnol ac allanol ar ein holl drenau. Ar ryw draean o'n gorsafoddedd mae yna deledu cylch cyfyng sydd wedi'i gysylltu â'r Ganolfan Rheoli Gweithrediadau. Mae gosod systemau TCC mewn gorsafoddedd a gwella'r systemau presennol bellach yn rhan o lawer o'r cynlluniau mawr i wella gorsafoddedd. Yn y gorsafoddedd heb staff sydd â TCC, darperir Mannau Cymorth sydd wedi'u nodi'n glir i alw am gymorth mewn argyfwng.

Mae rhai o'n gorsafoedd mawr wedi cael Dyfarniad Gorsafoedd Diogel, ac er mwyn cadw'r dyfarniad cawn ein hail-adolygu gan aseswyr allanol bob blwyddyn.

7 Ar y trê

7.1 Gwybodaeth glywedol a gweledol

Mae cyfarpar wedi'u gosod ar ein holl drenau i'n tocynwyr wneud cyhoeddiadau. Os digwydd tarfu neu unrhyw ddigwyddiadau eraill a allai effeithio ar deithwyr ar y trê, caiff cyhoeddiadau clir a chyson eu gwneud a byddwch yn cael diweddariadau wrth i'r amgylchiadau ddatblygu.

Mae ein trenau Dosbarth 175 hefyd yn darparu gwybodaeth weledol am batrwm galw'r trê ac yn dangos enw'r orsaf nesaf. Mae system debyg yn cael ei gosod ar ein trenau Dosbarth 158 yn ystod y broses bresennol o'u hailwampio.

7.2 Seddi ar drenau

Rydym yn addo gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod teithwyr anabl yn arbennig yn gallu cael sedd ar drê. Fel arfer, Sedd Flaenoriaeth ddynodedig fydd hon. Fodd bynnag, gan mai dim ond un Sedd Flaenoriaeth sydd ar y rhan fwyaf o'n trenau, yn ychwanegol at le i gadair olwyn (mae gan drenau Dosbarth 175 ddau le ac mae ail le'n cael ei osod ar ein trenau Dosbarth 158 wrth iddynt gael eu hailwampio'n fewnol), efallai na fydd hyn yn bosibl os oes rhywun yn eistedd yn y Seddi Blaenoriaeth, neu os ydynt wedi cael eu cadw ar gyfer teithwyr sydd wedi trefnu ymlaen llaw ac a fydd yn dod ar y trê cyn bod teithwyr sydd heb drefnu ymlaen llaw i fod i fynd oddi ar y trê.

7.3 Cadeiriau olwyn ar drenau

Trenau â drysau llydan, pweredig a lleoedd dynodedig i gadeiriau olwyn sy'n rhedeg ar bron pob un o'n gwasanaethau, a gellir cludo cadeiriau olwyn hyd at 700mm o led a hyd at 1200mm o hyd (gan gynnwys y platiau traed) arnynt, ar wahân i ddau wasanaeth penodol (Bae Caerdydd a'r ddau wasanaeth a dynnir gan locomotif rhwng Caerdybi a Chaerdydd). Gellir cadw lleoedd i gadeiriau olwyn trwy Passenger Assist ar gyfer ein gwasanaethau hirach. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleuster hwn ar gael ar wasanaethau ardal leol Caerdydd, Swanline, Wrecsam/Bidston, Cheltenham/Maesteg a rhai gwasanaethau byr eraill. Bydd ein staff plattform neu staff y trê yn defnyddio'r ramp ac yn cynorthwyo defnyddwyr cadeiriau olwyn i'r lle penodol yn y cerbyd, ac i ffwrdd ohono. Ar ôl i'r rampiau gael eu gosod yn eu lle, gall defnyddwyr cadeiriau olwyn pweredig eu defnyddio heb gymorth, ond cânt eu goruchwylio gan aelod o staff y plattform neu gan y Tocynnwr.

Oni all y defnyddiwr gario'r gadair ar y trê ac i ffwrdd ohono, os yw'n defnyddio cadair olwyn "Chwaraeon" (sy'n ysgafn ac sydd â dolenni y gellir eu datod), rhaid i'r dolenni hyn gael eu gosod cyn iddo gael ei gynorthwyo i fynd ar y trê neu oddi arno, er mwyn osgoi damweiniau.

7.4 Sgwteri ar drenau

Gellir cludo sgwteri teithio ysgafn hyd at 1200mm o hyd (gan gynnwys y plât troed), 700mm o led, radiws troi 990mm a gyda phwysau cyfun o 300kg (y sgwter a'r teithiwr) ar ein gwasanaethau trê os yw'r sgwter unigol wedi cael ei asesu ymlaen llaw gan y Rheolwr Gorsaf Lleol, os yw'n bodloni ein gofynion diogelwch, os oes modd ei symud yn rhwydd yn y lle cyfyng sydd ar drê, ac os oes gan y defnyddiwr Hawlen Sgwter gyfredol gan Drenau Arriva Cymru. Hefyd rhaid bod y teithiwr wedi trefnu trwy Passenger Assist i

ddod ag ef ar ein trenau. Mae'n bosibl y bydd angen asesiad arall wrth adnewyddu'r awdurdodiad ac os yw'r defnyddiwr yn ei newid am sgwter o fodel gwahanol neu gan wneuthurwr gwahanol.

Lle bo'ch taith yn cynnwys gwasanaethau cwmnïau trên eraill rydym yn eich cynghori i holi'r cwmnïau trên perthnasol a ellir cludo sgwteri ar eu gwasanaethau ac a yw eich sgwter yn bodloni eu gofynion.

Noder, os nad oes lle wedi cael ei gadw i'r sgwter ar y trên trwy Passenger Assist, na allwn ddarparu trafndiaeth o fath arall oni fo'n sgwter y gellir ei blygu ac sy'n hawdd ei gludo. Mae hyn yn wir pa un a yw'r defnyddiwr â Hawlen Sgwter gan Drenau Arriva Cymru ai peidio.

Rydym yn gofyn i ddefnyddwyr sgwteri gydymffurfio â'r canllawiau canlynol yn ein gorsafoedd:

- Gyrru'r sgwter ar gyflymder cerdded;
- Gwneud yn siŵr eu bod yn aros i ffwrdd o ymyl y platfform hyd nes bod y trên wedi stopio'n llwyr yn yr orsaf;
- Tynnu unrhyw fagiâu/siopa ac ati o gefn y sgwter, gan y gallant achosi iddo dipio wrth fynd i fyny neu i lawr rampiau; a
- Dilyn cyfarwyddiadau'r staff bob amser.

I gael mwy o fanylion am sgwteri a sut i gael Hawlen Sgwter gan Drenau Arriva Cymru, cysylltwch â'n Hadran Cysylltiadau Cwsmeriaid (manylion yn Adran 10).

7.5 Treisiclau ar drenau

Oherwydd eu maint a'u siâp, ni allwn gludo treisiclau ar ein trenau nac ar unrhyw drafndiaeth yn lle trenau (gan gynnwys tacsis) ac nid ydym yn caniatáu eu defnyddio yn ein gorsafoedd. Mae hyn yn wir pa un a yw'r person yn defnyddio treisicl ar gyngor neu argymhelliad ei ymarferydd meddygol ai peidio.

7.6 Cŵn cymorth ar drenau

Mae Trenau Arriva Cymru ac Assistance Dogs (UK) yn cydweithio i wella mynediad i gwsmeriaid sy'n teithio gyda chymorth cŵn wedi'u hyfforddi'n broffesiynol. Mae Assistance Dogs yn cynrychioli Canine Partners, Dogs for the Disabled, Hearing Dogs for Deaf People, Support Dogs a Guide Dogs for the Blind.

Gall perchnogion cŵn cymorth hefyd fanteisio ar gynllun sy'n cynnig lle wedi'i ddiogelu o flaen y sedd nesaf, pan fônt yn trefnu cadw sedd, i sicrhau y gall y ci deithio'n ddiogel ac yn gyfforddus. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â'n Hadran Cysylltiadau Cwsmeriaid (manylion yn Adran 10).

7.7 Gwybodaeth am gerbydau

Mae ein fflyd trenau pellter hir yn cynnwys trenau diesel Dosbarth 175 sy'n rhedeg ar y rhan fwyaf o'n gwasanaethau pellter hirach. Adeiladwyd y trenau hyn i gydymffurfio â

safonau diweddaraf Hygyrchedd Cerbydau Rheilffordd ac mae ganddynt doiled cwbl hygyrch gyda chyfleusterau newid babanod. Mae gweddill y fflyd yn drenau aml-uned diesel cynharach, y mae ganddynt i gyd rai cyfleusterau i deithwyr anabl, er enghraifft:

- Mae gan ein trenau Dosbarth 158, sydd hefyd yn cael eu defnyddio ar wasanaethau pellter hirach, doiled hygyrch â lle ynddo i gadair olwyn hyd at 580mm o led, a chyfleusterau newid babanod;
- Mae pictogramau wedi'u gosod ar y mynedfeydd mwyaf addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn;
- Mae gan ein holl drenau a'n prif orsafoedd rampiau am fynediad ar gyfer cadeiriau olwyn;
- Mae gan bob trên le dynodedig i gadair olwyn a gellir cludo cadeiriau olwyn hyd at 700mm o led a 1200mm o hyd ar y rhan fwyaf o'r gwasanaethau

Ceir disgrifiadau cryno o'r mathau o drenau rydym yn eu rhedeg, a'u cyfleusterau, yn Atodiad D.

Wrth lesio neu gaffael trenau newydd, cânt eu cynllunio er mwyn i'r holl deithwyr ag anawsterau symud allu defnyddio'r cyfleusterau ar y trên gan wybod bod eu hanghenion wedi cael eu hystyried.

Caiff anghenion teithwyr eu hystyried fel rhan o unrhyw raglen adnewyddu trenau. Fodd bynnag, mae yna gyfyngiadau ar hyn oherwydd mae'n bosibl na fydd ein trenau hyn yn gallu bodloni'r holl safonau diweddaraf oherwydd cyfyngiadau strwythurol.

Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau, lle bo'n ymarferol, bod unrhyw drenau ychwanegol a gaiff eu llogi ar gyfer achlysuron arbennig (fel digwyddiadau mawr) yn cynnwys darpariaeth i deithwyr ag anawsterau symud.

7.8 Arlwyyo ar drenau

Rydym yn darparu gwasanaeth arlwyyo wrth y sedd ar nifer o'n gwasanaethau pellter hir, a dynodir hyn gan symbol y troli ar ein hamserlenni.

8 Gwneud cysylltiadau

8.1 Cysylltiadau i/o wasanaethau trên eraill

Os yw taith wedi cael ei threfnu trwy Passenger Assist, gallwn eich helpu i wneud cysylltiadau i drenau eraill yn ein gorsafoedd, pa un ai Trenau Arriva Cymru sy'n rhedeg y trên hwnnw ai peidio. Bydd hyn hefyd yn cynnwys unrhyw gymorth a roddir pan fo trên yn gadael o blatfform gwahanol ar fyr rybudd a lle gwneir cyhoeddiadau clywedol a gweledol ar fyr rybudd.

Mae'r trefniadau hyn hefyd yn cynnwys arweiniad gan rywun â golwg i deithwyr sydd â nam ar eu golwg. Rydym yn annog teithwyr i drefnu eu taith trwy Passenger Assist a gofyn am gadw seddi ar yr un pryd er mwyn sicrhau bod cymorth i'r trên cysylltiol ar gael.

8.2 Cysylltiadau â mathau eraill o drafnidiaeth

Mewn gorsafoedd â staff byddwn yn helpu teithwyr sydd wedi trefnu cymorth trwy Passenger Assist i fynd i dacsis neu i'r man casglu dynodedig. Byddwn hefyd yn ceisio darparu'r gwasanaeth hwn os nad ydych wedi'i drefnu ymlaen llaw, ond mae'n bosibl y bydd yna oedi. Os oes angen cymorth arnoch, dywedwch wrth aelod o'r staff platfform a fydd yn eich cynorthwyo. Yng ngorsaf Caergybi, byddwn yn cynorthwyo teithwyr i fynd i'r ddesg gofrestru briodol ar gyfer fferi, i gael cymorth o'r fan honno ymlaen.

9 Tarfu ar gyfleusterau a gwasanaethau

9.1 Tarfu

Os yw oedi'n digwydd ar ôl i'ch taith drên gychwyn, fe wnawn bob ymdrech i:

- Ddarparu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl ar y trên trwy gyhoeddiadau a thrwy i'r Tocynnwr gerdded trwy'r trên;
- Pasio negeseuon ymlaen i bobl sydd o bosibl yn cyfarfod â'r teithwyr neu'n poeni amdanynt;
- Mynd â'r teithwyr i'r cyrchfan sydd ar y tocyn;
- Mynd â'r teithwyr i'w cyrchfan bws, pan fo'r daith yn cynnwys tocyn trên/bws;
- Trefnu trafndiaeth arall mewn rhai amgylchiadau penodol;
- Trefnu llety dros nos mewn rhai amgylchiadau penodol;
- Mynd â'r teithwyr i orsaf briodol, os nad yw'n bosibl parhau â'r daith mwyach;
- Rhoi diodydd heb alcohol i'r teithwyr am ddim, lle mae lluniaeth yn cael ei ddarparu ac os oes stoc ar gael, os oes oedi o fwy nag awr.

Byddwn hefyd yn darparu, heb dâl ychwanegol, wasanaeth hygyrch arall i fynd â theithwyr anabl (a chydymaith sy'n oedolyn) i'r orsaf hygyrch agosaf neu fwyaf cyfleus, y gallant barhau â'u taith ohoni:

- Lle na all teithiwr anabl deithio o orsaf oherwydd bod yr orsaf yn anhygyrch iddo;
- Lle bo cludiant a ddarperir yn lle gwasanaethau trên yn anhygyrch, am ba reswm bynnag, i deithwyr anabl a'r rheiny ag anawsterau symud;
- Lle bo yna darfu ar wasanaethau ar fyr rybudd sy'n gwneud y gwasanaethau'n anhygyrch i deithwyr anabl.

Gwneir pob ymdrech i ddarparu ffordd arall o deithio, yn ôl angen penodol ein teithwyr, er mwyn iddynt gwblhau eu taith. Lle bo teulu'n teithio gydag un neu fwy o aelodau anabl, byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn teithio gyda'i gilydd.

Gellir gweld manylion unrhyw darfu sydd wedi'i gynllunio ar wasanaethau ar ein gwefan. Bydd teithwyr sy'n defnyddio Passenger Assist i drefnu cymorth ar gyfer gwasanaethau y bydd tarfu arnynt yn cael gwybod ac yn cael gwybodaeth am drefniadau eraill. Yn achos tarfu sydd wedi'i gynllunio neu darfu heb ei gynllunio fydd yn para'n hir, bydd hysbysiadau hefyd yn cael eu harddangos yn ein gorsafoedd mawr, yn y gorsafoedd lleol mae'r tarfu'n effeithio arnynt, ac yng ngorsafoedd cwmnïau trên eraill.

Bydd staff ein gorsafoedd hefyd yn cael gwybod yn rheolaidd am y datblygiadau fel y gallant gynorthwyo teithwyr sydd eisiau defnyddio'r trenau mae'r tarfu'n effeithio arnynt.

9.2 Tarfu wedi'i gynllunio

Os rhoddwyd gwybod i chi eisoes am darfu wedi'i gynllunio wrth i chi drefnu'ch taith ond na allwch deithio ar adeg arall, caiff tacsï ei ddarparu i chi (ac un oedolyn sy'n teithio gyda chi) ar gyfer y rhan honno o'r daith lle mae trafndiaeth ffordd yn rhan o'r trefniadau (neu ar gyfer y daith gyfan os yw nifer o newidiadau rhwng trafndiaeth rheilffordd a ffordd yn rhan o'r trefniadau).

Noder, efallai na fyddwn yn gallu darparu trafndiaeth arall ar gyfer sgwteri na threfnwyd ar eu cyfer, oni bai eu bod yn rhai sy'n plygu y gellir eu cludo'n hawdd.

9.3 Tarfu heb ei gynllunio

Pan ddigwydd tarfu heb ei gynllunio, byddwn yn gwneud trefniadau i ddarparu trafndiaeth arall, a fydd yn galw yn yr un cyrchfannau â'r gwasanaeth trên oedd wedi'i gynllunio. Os nad oes bysiau hygyrch â llawr isel ar gael, byddwn yn darparu tacsï i deithwyr anabl (ac eraill ag anawsterau symud) ac un oedolyn sy'n teithio gyda hwy, cyn gynted ag y bo'n bosibl. Lle bo teulu'n teithio gydag un neu fwy o aelodau anabl, byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau y byddant yn teithio gyda'i gilydd. Pan fo trên yn gadael o blatfform gwahanol ar fyr rybudd, byddwn yn sicrhau y bydd yr holl deithwyr ag anawsterau symud yn cael eu cynorthwyo i'r trên wrth y platfform newydd cyn iddo gael ei anfon o'r platfform.

Lle bynnag y bo'n bosibl, os ydych wedi trefnu cymorth trwy Passenger Assist, byddwn yn gwneud pob ymdrech i gysylltu â chi am y tarfu ac, os oes angen, gwneud trefniadau eraill i deithio, naill ar y diwrnod gwreiddiol neu ar ddiwrnod arall. Pan ddigwydd tarfu heb rybudd ymlaen llaw, byddwn yn gwneud trefniadau ar gyfer cymorth gyda thrafnidiaeth o fathau eraill ac ar gyfer teithio ymlaen pan gyrhaeddwch yr orsaf ymadael.

9.4 Tarfu ar gyfleusterau i deithwyr yn ein gorsafoedd

Mae gwybodaeth am ein gweithdrefnau i gynorthwyo teithwyr anabl mewn gorsafoedd ac ar drenau os digwydd argyfwng ar gael yn ein dogfen "Gwneud y Rheilffyrdd yn Hygyrch: Canllaw i Bolisïau ac Arferion". Gellir gweld y ddogfen hon ar ein gwefan neu gellir gofyn am gopi printiedig oddi wrth ein Tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid; mae manylion cyswllt y Tîm yn Adran 10 o'r llyfryn hwn.

9.5 Cynorthwyo teithwyr anabl os digwydd argyfwng

Mae ein timau cynnal a chadw'n mynd i'n gorsafoedd heb staff (a'r rheiny sydd â Swyddfa Docynnau'n unig) ddwywaith yr wythnos, a byddant yn unioni unrhyw ddiffygion sy'n amlwg ar y pryd. Os ydych chi'n dod i wybod am unrhyw ddiffygion neu broblemau sy'n effeithio ar eich taith, cysylltwch â'n Tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid gan ddefnyddio'r manylion yn Adran 10 o'r llyfryn hwn.

10 Cysylltu â ni

I gael gwybodaeth neu gyngor neu i gynnig sylwadau neu adborth cyffredinol ar ein gwasanaeth a'n cyfleusterau, neu i gael copi o'n dogfennau polisi a/neu ein dogfennau i deithwyr (gan gynnwys y rheiny mewn fformatau hygyrch), cysylltwch â'r canlynol:

Cysylltiadau Cwsmeriaid

Trenau Arriva Cymru, St. Mary's House,
47 Heol Penarth, Caerdydd CF10 5DJ
Ffôn: 0845 6061 660
e-bost: customer.relations@arrivatrainswales.co.uk
Gwefan: www.arrivatrainswales.co.uk

Gallwch hefyd roi'ch sylwadau ac adborth ar ein gwasanaethau i:

Passenger Focus

FREEPOST (RRRE-XAGE-BYKZ), PO BOX 5594, Southend on Sea SS1 9PZ

Ffôn: 0300 123 2350
Ffacs: 0845 850 1392
E-bost: info@passengerfocus.org.uk
Gwefan: www.passengerfocus.org.uk

11 Fformatau eraill

Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth am ein gwasanaethau'n cael ei lledaenu mor eang ag sy'n bosibl. Rydym yn gwneud hyn trwy amrywiaeth o ddeunyddiau printiedig, posteri a chyfryngau newyddion a'n gwefan. Cysylltwch â'n Tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid os ydych eisiau cael gwybodaeth mewn Braille, print bras neu fformat arall. Byddwn yn darparu'r dogfennau print bras cyn pen 7 diwrnod gwaith ar ôl i'ch cais ddod i law, ac unrhyw fformatau eraill cyn gynted ag y bo'n bosibl.

Rydym eisiau sicrhau bod ein gwefan mor gynhwysol ag sy'n bosibl ac nad oes unrhyw rwystrau i unrhyw un sy'n ei defnyddio, waeth beth fo ei allu. Mae ein gwefan bresennol yn cydymffurfio i radd AA â safonau gwe W3C ac yn hygyrch i raglenni darllen sgrin. Mae'r achrediad yn berthnasol i bob elfen o'r safle ac eithrio ein hamserlenni lawrlwythadwy. Rydym yn gweithio'n galed i wneud y rhain yn gwbl hygyrch a byddwn yn eu diweddarau cyn gynted ag y gallwn. I gael mwy o wybodaeth, ewch i <http://www.arrivatrainswales.co.uk/Accessibility/>

Mae hyn yn golygu y bydd ein gwefan wedi llwyddo mewn profion hygyrchedd llym gan ddefnyddwyr profiadol technoleg wedi'i haddasu ar gyfer mynediad i bobl sydd:

- yn ddall;
- yn rhannol ddall;
- yn ddall i liwiau;
- â dyslecsia;

- â namau ar eu clyw;
- â namau ar eu symudedd; ac
- ag anawsterau dysgu

Bydd yr achrediad hwn yn berthnasol i bob elfen o'r wefan, ac eithrio ein hamserlenni a thafleuni lawrlwythadwy.

12 Gwybodaeth am hygyrchedd gorsafoedd

12.1 Gorsafoedd Trenau Arriva Cymru

I gael manylion am hygyrchedd yn ein gorsafoedd, trowch at Atodiad A.

12.2 Gorsafoedd eraill a wasanaethir gan Drenau Arriva Cymru

Dangosir isod restr o orsafoedd mae ein trenau'n galw ynddynt, ond nad ydym yn eu rhedeg, ynghyd â rhifau ffôn y gellir cysylltu â hwy i gael gwybod pa mor hygyrch yw'r gorsafoedd hynny.

Network Rail (www.networkrail.co.uk)
0121 654 4288 Birmingham New Street
0161 228 4562 Manceinion Piccadilly

London Midland 0121 654 1200 (www.londonmidland.com)
Albrighton, Bilbrook, Codsall, Cosford, Oakengates, Shifnal, Smethwick
Galton Bridge, Telford Central, Wellington

Northern Rail 0870 241 2305 (www.northernrail.org)
Earlestown, Manceinion Oxford Road, Newton-le-Willows, Wilmslow

Virgin Trains 0870 789 1234 (www.virgintrains.com)
Birmingham International, Crewe, Stafford, Stockport, Warrington Bank Quay,
Wolverhampton

First Great Western 0845 6000 880 (www.firstgreatwestern.co.uk)
Cheltenham, Gloucester

Merseyrail 0151 702 2071 (www.merseyrail.org)
Bidston

First TransPennine Express 0800 107 2149 (www.tpexpress.co.uk)
Maes Awyr Manceinion

13 Adolygiad

Fel rhan o'n Proses Gwella Parhaus, caiff ein Polisi Amddiffyn Pobl Anabl (PAPA) ei adolygu bob blwyddyn gyda'r Adran Drafnidiaeth. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys:

(bullet points)

adolygu'r cynnydd tuag at gydymffurfio â'r PAPA a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig;

ystyried gwelliannau i'r polisi a gwerthuso'r cyfleoedd technolegol;
ac unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau i'r PAPA.

Atodiad A -

Gorsafoedd a weithredir a gwybodaeth am hygyrchedd

Mae'r manylion a geir yn y tablau ar ddiwedd y llyfryn hwn wedi'u bwriadu i fod yn ganllaw i lefel y mynediad sydd ar gael yn y gorsafoedd rydym yn eu rhedeg. Gan fod llawer o'r gorsafoedd heb staff, rydym yn cynghori teithwyr yn gryf i gadarnhau bod lefel y mynediad sydd ar gael yn addas at eu hanghenion cyn iddynt deithio.

Yn y tablau hyn, yn y golofn â'r pennawd "Staffio a'r cymorth sydd ar gael":

Ystyr "Â staff" yw bod gan y gorsafoedd staff plattform i gynorthwyo a bod ganddynt rampiau ar gyfer y trenau;

Ystyr "Asiant", "Swyddfa Docynnau" a "Heb staff" yw nad oes gan y gorsafoedd staff plattform i gynorthwyo ac nad oes ganddynt rampiau ar gyfer y trenau – mae rampiau gan y trenau a'r Tocynwyr fydd yn rhoi cymorth i fynd ar y trenau ac oddi arnynt.

Pan fo'r golofn yn dangos amserau pan fo staff plattform yn bresennol, yn ystod yr oriau heb staff bydd yr un lefel o gymorth ag a ddisgrifir uchod ar gael.

Yng ngorsaf y Fenni, er nad oes gan yr orsaf hon staff plattform, mae cymorth ar gael o'r Swyddfa Docynnau ar yr adegau a nodir yn y tabl (ond efallai y bydd oedi wrth roi'r cymorth hwn os nad yw wedi cael ei drefnu ymlaen llaw).

Atodiad B - Gwelliannau a wnaethpwyd i orsafoedd i gynorthwyo teithwyr anabl yn ystod y cyfnod o 1 Medi 2011 i 31 Awst 2012

Adeiladwyd gorsaf newydd, sy'n gwbl hygyrch, yn Abergwaun ac Wdig ac fe'i hagorwyd ym mis Mai 2012.

Oherwydd difrod strwythurol i'r plattform yng ngorsaf Pont Rufeinig, cafodd y plattform ei ailadeiladu'n gynt nag a fwriadwyd, gyda phlatfform uwch, ym mis Ebrill 2012. Mae gwaith i ddarparu llwybr hygyrch o'r ffordd i'r plattform yn yr arfaeth.

Wrth baratoi i osod Twmpathau Plattform ar blatfformau isel yn ystod 2012 a 2013, mae rampiau sy'n cydymffurfio wedi cael eu gosod mewn nifer o orsafoedd i ganiatáu mynediad i'r platfformau. Y gorsafoedd lle mae'r rampiau hyn wedi cael eu gosod yw: Bynea, Deganwy, Dyffryn Ardudwy, Llanfairfechan, Llangennech, Llanwrda, Llwyngwril, Penfro, Pen-y-bont; Talsarnau a Thŷ Croes. Fodd bynnag, mewn nifer fach o orsafoedd lle mae llwybrau mynediad ar dir preifat yn arwain at y rampiau hyn, mae'n bosibl y bydd

mynediad at rampiau plattform yn anodd o hyd ac mae Consortia Lleol yn ceisio datrys y problemau hyn.

Pen-y-bont ar Ogwr – Gosodwyd pont droed newydd rhwng y plattformau, gan gynnwys lifftiau, ym mis Mai 2012.

Llanllieni (Leominster) – Gosodwyd lifftiau ar gyfer y bont droed ym mis Ebrill 2012.

Wrecsam Cyffredinol – Cafodd y gwaith o ymestyn y bont droed gyda lifft, i Blattform 4, ei gwblhau ym mis Mawrth 2012.

Mae'r rhan fwyaf o'n Cownteri Tocynnau bellach yn addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Mae'r gorsafoedd eraill i fod i gael eu haddasu yn 2012 a 2013 a rhoddir manylion amdanynt yn Atodiad C ar y dudalen nesaf.

Atodiad C -

Gwelliannau arfaethedig i orsafoedd i gynorthwyo teithwyr anabl yn ystod y cyfnod o 1 Medi 2012 i 31 Rhagfyr 2013

Yn amodol ar y cyllid fydd ar gael, caiff Twmpathau Plattform eu gosod mewn gorsafoedd lle mae yna anawsterau o ran mynediad i drenau ar hyn o bryd ond lle byddai'n anodd codi uchder y plattformau. Cânt eu gosod yn Abergele a Phensarn (plattform 2), Arberth, Bodorgan, Builth Road, Bynea, Cilgeti, Cilmeri, Cnwclas, Glan-y-fferi, Gogledd Llanrwst, Llanbister Road, Llandyfái, Llanfairpwll, Llangennech, Llangynllo, Llanwrda, Llanymddyfri, Llwyngwrl, Penhelyg, Penmaenmawr, Penrhyndeudraeth, Pen-y-fâl (Sugar Loaf), Pontarddulais, Rhosneigr, Talsarnau, Tal-y-cafn a Thŷ Croes.

I gynorthwyo â hygyrchedd yng ngorsaf Pont Rufeinig, bydd y gât drom at y plattform yn cael ei thynnu neu caiff gât newydd ei gosod yn ei lle, a chaiff man parcio i bobl anabl ei osod yn ymyl y fynedfa i'r plattform, yn amodol ar y cyllid fydd ar gael.

Bydd gan yr holl Swyddfeydd Tocynnau yn ein gorsafoedd Gownter Tocynnau addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn erbyn mis Rhagfyr 2013. Y gorsafoedd sydd ar ôl yw Aberdaugleddau, Caerdydd Heol y Frenhines, Caerffili, Cathays, Gobowen, Llandaf, Llandrindod a Phen-y-bont ar Ogwr.

Bydd Arddangosiadau Gweledol yn cael eu gosod erbyn mis Rhagfyr 2013 ym mhob gorsaf yng Nghymru sydd heb unrhyw ffordd o ddarparu manylion diweddaraf rhediad y trenau. Bydd y sgriniau hyn yn cymryd lle'r manau gwybodaeth â botwm neu ffonau penodol neu'r cyfleuster **1 ar ffonau cyhoeddus mewn rhai gorsafoedd. Wrth i'r cyllid ganiatáu, ein nod yw gosod cyfleusterau tebyg yn ein gorsafoedd bach yn Lloegr, ond mae'n bosibl na fydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2013.

Y Fenni – Caiff lifftiau eu gosod ar gyfer y bont droed erbyn mis Mai 2013.

Henffordd (Hereford) – Caiff lifftiau eu gosod ar gyfer y bont droed erbyn mis Tachwedd 2013.

Cyffordd Twannel Hafren – Mae pont droed newydd rhwng y platfformau, gan gynnwys lifftiau, i fod i gael ei gosod ym mis Mawrth 2013.

Atodiad D – Gwybodaeth am gerbydau

Trenau a weithredir gan Drenau Arriva Cymru

AML-UNED DIESEL DAU GERBYD DOSBARTH 142

Adeiladwyd: 1985-7

Nifer yr unedau sy'n rhedeg: 15

Y llwybrau maent yn rhedeg arnynt: Gwasanaethau lleol Cymoedd Caerdydd a De Cymru

Nifer y manau dynodedig i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn: 1

Toiledau: Un safonol.

Cyfleusterau eraill: Rampiau i fynd allan, man eistedd gyda seddi codi a chanllawiau. Drysau, botymau agor drysau a chanllawiau sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau presennol i bobl â nam ar eu golwg.

Gwybodaeth i deithwyr: Hysbysiadau, cyhoeddiadau gan y Tocynnwr

AML-UNED DIESEL DAU GERBYD DOSBARTH 143

Adeiladwyd: 1985-6

Nifer yr unedau sy'n rhedeg: 15

Y llwybrau maent yn rhedeg arnynt: Gwasanaethau lleol Cymoedd Caerdydd a De Cymru

Nifer y manau dynodedig i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn: 1

Toiledau: Un safonol.

Cyfleusterau eraill: Rampiau i fynd allan, man eistedd gyda seddi codi a chanllawiau. Drysau, botymau agor drysau a chanllawiau sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau presennol i bobl â nam ar eu golwg.

Gwybodaeth i deithwyr: Hysbysiadau, cyhoeddiadau gan y Tocynnwr

AML-UNED DIESEL DAU GERBYD DOSBARTH 150

Adeiladwyd: 1987

Nifer yr unedau sy'n rhedeg: 36

Y llwybrau maent yn rhedeg arnynt: Cymoedd Caerdydd a llawer o wasanaethau nad ydynt yn gyflym a gwasanaethau maestrefol ar draws ein rhwydwaith gwasanaethau

Nifer y manau dynodedig i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn: 1

Toiledau: Un safonol.

Cyfleusterau eraill: Rampiau i fynd allan, man eistedd gyda seddi codi a chanllawiau. Drysau, botymau agor drysau a chanllawiau sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau presennol i bobl â nam ar eu golwg.

Gwybodaeth i deithwyr: Hysbysiadau, cyhoeddiadau gan y Tocynnwr

AML-UNED DIESEL UN CERBYD DOSBARTH 153

Adeiladwyd: 1987-88 ac addaswyd 1991-2

Nifer yr unedau sy'n rhedeg: 8

Y llwybrau maent yn rhedeg arnynt: Llwybrau Trenau Arriva Cymru y tu allan i Gymoedd Caerdydd

Nifer y manau dynodedig i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn: 1

Toiledau: Un safonol.

Cyfleusterau eraill: Rampiau i fynd allan. Drysau, botymau agor drysau a chanllawiau sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau presennol i bobl â nam ar eu golwg.

Gwybodaeth i deithwyr: Hysbysiadau, cyhoeddiadau gan y Tocynnwr.

AML-UNED DIESEL CYFLYM DAU GERBYD DOSBARTH 158/0

Adeiladwyd: 1989-92

Nifer yr unedau sy'n rhedeg: 24

Y llwybrau maent yn rhedeg arnynt: Llwybrau pellter hir Trenau Arriva Cymru a'i wasanaethau cyflym ar brif linellau

Nifer y manau dynodedig i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn: 2

Toiledau: Un safonol ac un hygyrch i gadeiriau olwyn gyda botwm cymorth a chyfleusterau newid babanod. Noder mai dim ond cadeiriau olwyn hyd at 580mm o led all fynd i mewn i'r toiled hygyrch.

Cyfleusterau eraill: Rampiau i fynd allan. Drysau, botymau agor drysau a chanllawiau sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau presennol i bobl â nam ar eu golwg.

Gwybodaeth i deithwyr: Hysbysiadau, cyhoeddiadau gan y Tocynnwr. (Mae cyhoeddiadau awtomatig a sgriniau gwybodaeth i deithwyr yn cael eu gosod yn ystod y rhaglen adnewyddu, a fydd wedi'i chwblhau erbyn diwedd mis Hydref).

AML-UNED DIESEL CYFLYM DAU A THRI CHERBYD DOSBARTH 175

Adeiladwyd: 1999-2001

Nifer yr unedau sy'n rhedeg: 11 dau gerbyd ac 16 tri cherbyd

Y llwybrau maent yn rhedeg arnynt: Gwasanaethau cyflym ar brif linellau Trenau Arriva Cymru

Nifer y manau dynodedig i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn: 2

Toiledau: Un neu ddau safonol, un cwbl hygyrch i gadeiriau olwyn gyda botwm cymorth a chyfleusterau newid babanod.

Cyfleusterau eraill: Rampiau i fynd allan, man eistedd gyda seddi codi a chanllawiau. Drysau, botymau agor drysau a chanllawiau sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau presennol i bobl â nam ar eu golwg.

Gwybodaeth i deithwyr: Hysbysiadau, cyhoeddiadau awtomatig, sgriniau gwybodaeth i deithwyr

AML-UNED DIESEL UN CERBYD DOSBARTH 121

Adeiladwyd: 1961

Nifer yr unedau sy'n rhedeg: 1

Y llwybr mae'n rhedeg arno: Caerdydd Heol y Frenhines i Fae Caerdydd

Nifer y manau dynodedig i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn: Dim. Argymhellir i deithwyr â chadeiriau olwyn ddal bws "Bay Car" rhwng y gorsafoedd hyn. Mae gwybodaeth a chyfarwyddiadau sut i gyrraedd y safleoedd bysiau ar arwyddion yn y ddwy orsaf. NI dderbynnir tocynnau rheilffordd ar y bws hwn ond derbynnir tocynnau PLUS BUS Caerdydd, sydd ar gael o swyddfeydd tocynnau mewn gorsafoedd ac oddi wrth Docynwyr ar drenau.

Mae trên a dynnir gan locomotif, sy'n cynnwys tri cherbyd dosbarth safonol ac un cerbyd dosbarth cyntaf/bwffe, yn gweithredu gwasanaeth dwyffordd ag arosiadau dethol rhwng y Gogledd a Chaerdydd (y Gogledd i Gaerdydd yn y bore, yn


dychwelyd i'r Gogledd yn hwyr y prynhawn). Er bod manau i gadeiriau olwyn yn y cerbydau ar y trên hwn, nid oes unrhyw doiledau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Am y rheswm hwn, ni ellir cadw lleoedd i gadeiriau olwyn ar y trên hwn. Rydym yn cynghori defnyddwyr cadeiriau olwyn i ddefnyddio un o'r gwasanaethau eraill rhwng y Gogledd a Chaerdydd, gan fod gan y rhain doiledau hygyrch priodol.

Atodiad E -

Gwelliannau i gerbydau i gynorthwyo â hygyrchedd yn ystod y flwyddyn sy'n dechrau 1 Medi 2012

Byddwn yn gorffen y rhaglen adnewyddu ar yr unedau Dosbarth 158 sydd ar ôl, gan gynnwys gosod offer cyhoeddiadau awtomatig a sgriniau gwybodaeth i deithwyr.

Atodiad F - Map o'r rhwydwaith



Gwybodaeth am hygyrchedd a chyfleusterau yng ngorsafoedd Trenau Arriva Cymru

Mae'r manylion a geir yn y tablau canlynol wedi'u bwriadu i fod yn ganllaw i lefel y mynediad sydd ar gael yn y gorsafoedd rydym yn eu rhedeg. Gan fod llawer o'r gorsafoedd heb staff, rydym yn cynghori teithwyr yn gryf i gadarnhau bod lefel y mynediad sydd ar gael yn addas at eu hanghenion cyn iddynt deithio.

Mewn gorsafoedd â staff mae yna staff plafform i gynorthwyo a rampiau ar gyfer trenau, naill ar bob adeg mae'r orsaf benodol honno ar agor neu yn ystod oriau staffio yn unig. Mae'r disgrifiadau eraill yn y blwch perthnasol yn cael eu rhoi'n fanylach yn Atodiad A.

Yn nhermau'r tablau canlynol yn unig, mae'r rhain yn ddisgrifiad byr o'r cyfleuster neu'r amwynder dan sylw. Nid ydynt yn rhoi disgrifiad llawn o unrhyw gyfleuster, amwynder neu wasanaeth sy'n cael eu disgrifio yn unrhyw le arall yn y llyfryn hwn:

(indented paragraphs)

Mae'r term "Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn" yn cynnwys unrhyw fynediad i deithwyr sydd ag anawsterau symud, nid defnyddwyr cadeiriau olwyn yn unig;

Ystyr "Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i'r trê" yw bod y plafformau'n rhy isel i rampiau gael eu defnyddio;

Ystyr "Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i'r plafform" yw nad yw'n bosibl i deithwyr ag unrhyw anawsterau symud gael mynediad i'r orsaf.

Nid yw "Ystafelloedd Aros" ar agor ond yn ystod oriau staffio'r gorsafoedd perthnasol.

Mae "Swyddfa Docynnau" ac "Asiant" o dan y pennawd "Staffio a'r cymorth sydd ar gael" yn golygu, er bod yna swyddfa docynnau â staff yn yr orsaf, Tocynnwr y Trê fydd yn rhoi cymorth i fynd ar y trê ac oddi arno.

(end of indented paragraphs)

Er bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth am orsafoedd yn cael ei rhoi yn y tablau canlynol, mae yna rai nodweddion nas ceir ond mewn nifer lai o orsafoedd. Gan y byddai rhoi'r wybodaeth ychwanegol hon yn y prif dabl yn gwneud y llyfryn yn llawer mwy trwchus neu'n achosi i faint y print fod yn annerbyniol o fach, rydym wedi rhestru'r cyfleusterau hyn a'r gorsafoedd lle y'u ceir isod.

Mae meysydd parcio hygyrch gyda lleoedd Bathodyn Glas a reolir yn y gorsafoedd canlynol:

- Aberdaugleddau -1; Abertawe – 3; Amwythig (Shrewsbury) – 5; Bae Colwyn – 4; Bangor – 5; Caer (Chester) – 7; Caerdydd Canolog – 7; Caerfyrddin – 4; Casnewydd – 13; Cyffordd Llandudno – 4; Cyffordd Twannel Hafren – 4; Dinbych-y-pysgod – 2; Doc Penfro – 2; Henffordd (Hereford) – 10; Llwydlo (Ludlow) – 3; Pen-y-bont ar Ogwr – 3; Port Talbot Parkway – 6; Wrecsam Cyffredinol – 3. Y Fenni – 3;
- Mae cadeiriau olwyn â chymorth ar gael i'w defnyddio pan fo teithwyr ar yr orsaf ac yn cael cymorth i fynd ar y trê yn:

Abertawe, Amwythig (Shrewsbury), Bae Colwyn, Bangor, Caer (Chester), Caerdydd Canolog, Caerfyrddin, Caerdydd, Casnewydd, Castell Nedd, Cyffordd Llandudno, Henffordd (Hereford), Machynlleth, Pen-y-bont ar Ogwr, Port Talbot Parkway, Rhyl, Y Fenni.

- Mae drysau awtomatig i'r mynedfeydd a'r swyddfeydd tocynnau yn y gorsafoedd canlynol:
Abertawe 2; Amwythig (Shrewsbury) 2; Caerdydd Canolog 6; Caerfyrddin 2; Caerffili 2; Caerdydd 3; Casnewydd 4; Cwmbrân 2; Henffordd (Hereford) 2; Pen-y-bont ar Ogwr 1.
- Mae cyfleusterau arlwyio yn y gorsafoedd canlynol:
Abertawe (bwffe), Aberystwyth (bwffe a thafarn/bwyty), Amwythig (Shrewsbury) (bwffe ar Blatfform 4/7), Bangor (bwffe), Caer (Chester) (gwahanol fannau gwerthu yn y cyntedd a bwyty cyfagos i'r cyntedd), Caerdydd Canolog (bwffe a chownteri a siopau bwyd oer/poeth i fynd yng nghyntedd yr orsaf, stondin coffi ar Blatfform 1/2 a lolfa dosbarth cyntaf ar Blatfform 1), Caerffili (bwffe), Caerdydd (bwffe yn ystafell aros Stena); Cas-gwent (caffi preifat cyfagos), Casnewydd (bwffes a chiosgau), Castell Nedd (bwffe), Cwmbrân (cownter bwffe yn adeilad yr orsaf yn ystod oriau agor), Cyffordd Llandudno (bwffe), Harbwr Abergwaun (yn adeilad Stena cyfagos), Henffordd (Hereford) (bwffe), Hwlfordd (bwffe), Llandrindod (caffi), Llanelli (ciosg), Llwydlo (Ludlow) (ciosg), Machynlleth (bwffe), Pengam (ciosg), Pen-y-bont ar Ogwr (bwffe), Port Talbot Parkway (bwffe), Pwllheli (caffi), Wrecsam Cyffredinol (bwffe), Y Barri (bwffe), Y Fenni (bwffe).
- Fel arfer y Mannau Cyfarfod dynodedig ar gyfer cymorth mewn gorsafoedd â staff llawn, ac yn y Fenni, fydd Swyddfa Docynnau'r Orsaf. Yng Nghaerdydd Canolog, y prif Fan Cyfarfod yw'r Man Gwybodaeth, ond bydd y Swyddfa Docynnau'n trefnu cymorth pan fo hwnnw ar gau.
- Y gorsafoedd sydd â rampiau cadeiriau olwyn i ganiatáu mynediad i drenau o'r plattform yn ystod oriau staffio yw:
Abertawe, Amwythig (Shrewsbury), Bae Colwyn, Bangor, Caer (Chester), Caerdydd Canolog, Caerdydd Heol y Frenhines, Caerfyrddin, Caerdydd, Caerdydd, Casnewydd, Castell Nedd, Cyffordd Llandudno, Henffordd (Hereford), Machynlleth, Pen-y-bont ar Ogwr, Port Talbot Parkway a Rhyl. Y tu allan i oriau staffio yn y gorsafoedd hyn, ac yn ein holl orsafoedd eraill, tocynnwr y trê'n fydd yn gosod y ramp a chynorthwyo cadeiriau olwyn i fynd ar y trê'n ac oddi arno. Noder na fydd y tocynnwr yn rhoi unrhyw gymorth corfforol i gadeiriau olwyn pweredig a sgwteri ac eithrio gosod y ramp a dangos y ffordd i'r man dynodedig i'r teithiwr.
- Ar hyn o bryd y gorsafoedd sydd wedi cael, a chadw, Achrediad Gorsaf Ddiogel yw:
Abertawe, Bangor, Bae Colwyn, Caerdydd Canolog, Caerdydd Heol y Frenhines, Caerfyrddin, Casnewydd, Henffordd (Hereford), Llandudno, Pen-y-bont ar Ogwr a Phrestatyn.

Yn y golofn dan y pennawd "Staffio a'r cymorth sydd ar gael", lle ceir "Asiant", "Swyddfa Docynnau" neu "Heb staff", mae hyn yn golygu nad oes staff yn bresennol, neu nad yw'r staff wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol, i roi cymorth i fynd i'r plattform neu ar y trê'n. Tocynnwr y Trê'n fydd yn rhoi cymorth i fynd ar y trê'n ac oddi arno. Fodd bynnag, yn y

Fenni mae gennym staff hyfforddedig yn y Swyddfa Docynnau fydd yn rhoi cymorth yn ystod yr oriau mae'r Swyddfa Docynnau ar agor.

- Mae yna doiledau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn yn y gorsafoedd canlynol: Abermaw (NKS), Abertawe (NKS), Aberystwyth (NKS), Amwythig (Shrewsbury) (NKS), Bae Colwyn (NKS ond mynediad cyfyngedig sydd ganddo), Bangor (NKS), Caer (Chester) (NKS), Caerdydd Canolog (NKS, yn y tanlwybr), Caerdydd Heol y Frenhines (NKS, ond dim larwm cymorth), Caerfyrddin (NKS), Caerffili (NKS ym maes parcio'r Cyngor sy'n gyfagos), Caergybi (yn ystafell aros Stena), Casnewydd (NKS), Castell Nedd (NKS), Cwmbrân (NKS, ar agor dim ond yn ystod oriau agor y Swyddfa Docynnau), Cyffordd Llandudno (NKS), Gobowen (yn swyddfa gyfagos y trefnwr teithiau), Harbwr Abergwaun (yn adeilad Stena cyfagos), Henffordd (Hereford) (NKS), Llandrindod (yn ystod oriau agor y Swyddfa Docynnau; hefyd mae yna doiled NKS o eiddo'r Cyngor yn Station Crescent), Llandudno (NKS), Llwydlo (Ludlow) (NKS), Machynlleth (NKS), Penalun (toiled NKS y Cyngor yn gyfagos i'r maes parcio), Pen-bre a Phorth Tywyn (toiled NKS y Cyngor yn gyfagos i'r maes parcio), Pen-y-bont ar Ogwr (NKS), Pontypridd (NKS), Port Talbot Parkway (NKS), Prestatyn (toiled NKS ym maes parcio cyfagos y Cyngor), Pwllheli (nid NKS, yn ystod oriau agor y Swyddfa Docynnau), Rhyl (nid NKS), Wrecsam Cyffredinol (NKS). Y Fenni (trwy'r bwffe), Y Fflint (nid NKS),

Gwasanaeth gwennol Caerdydd Heol y Frenhines i Fae Caerdydd –

Cynghorir teithwyr ag anawsterau symud neu â chadeiriau olwyn sy'n bwriadu teithio i orsaf Bae Caerdydd, er bod gorsaf Bae Caerdydd yn gwbl hygyrch, bod yr unig fynediad i Blattform 2 yng ngorsaf Caerdydd Heol y Frenhines, sef yr unig blattform a ddefnyddir gan drenau i'r Bae, ar hyd grisiau neu ar lifft cadeiriau araf iawn a weithredir gan staff yr orsaf. Argymhellir i chi ddal y bws "Bay Car" o'r safle bysiau dros y ffordd o gefn gorsaf Caerdydd Canolog. Wrth fynd yn ôl, fe'ch cynghorir i ddal y bws "Bay Car" o'r safle ar Rodfa Lloyd George i orsaf Caerdydd Canolog. Mae gwybodaeth a chyfarwyddiadau sut i gyrraedd y safleoedd bysiau ar arwyddion yng ngorsafoedd Bae Caerdydd, Caerdydd Canolog a Chaerdydd Heol y Frenhines. **NI dderbynnir tocynnau rheilffordd ar y bws hwn** ond derbynnir tocynnau **PLUS BUS Caerdydd**, sydd ar gael o swyddfeydd tocynnau mewn gorsafoedd ac oddi wrth Docynwyr ar drenau.

Gorsaf Cathays –

Er bod y ddau blattform heb risiau, nid oes unrhyw gyfleuster i gadeiriau olwyn neu bobl ag anawsterau symud groesi'r llinell gan mai dim ond pont droed serth sydd. Cynghorir teithwyr ag anawsterau symud sydd wedi teithio o'r Cymoedd ac sydd eisiau mynd i'r Brifysgol, swyddfeydd Llywodraeth Cymru neu'r Ganolfan Ddinesig deithio i orsaf Heol y Frenhines a newid i drên i gyfeiriad y Gogledd, fel y'u cynghorir.

Neu gallwch ddal bws rhif 6 ("Bay Car") o'r tu allan i'r siop gyferbyn â mynedfa gorsaf Heol y Frenhines, a fydd yn mynd â chi i'r Brifysgol, swyddfeydd Llywodraeth Cymru neu'r Ganolfan Ddinesig. **NI dderbynnir tocynnau rheilffordd ar y bws hwn** ond derbynnir tocynnau **PLUS BUS Caerdydd**, sydd ar gael o swyddfeydd tocynnau mewn gorsafoedd ac oddi wrth Docynwyr ar drenau.

Gorsaf	Nifer platfformau	Staffio a'r cymorth sydd ar gael	Peiriannau hygyrch gwerthu tocynnau	Swyddfa docynnau	Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i'r platfform, gan gynnwys unrhyw anawsterau gyda man hygyrch i ollwng a chasglu teithwyr
Aber	2	Asiant	Dim	Dolen sain, cownter sy'n cydymffurfio	Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn. Mynediad i'r ddau blatfform dim ond ar rampiau sy'n fwy serth nag 1:12
Abercynon	2	Heb staff	Dim		Oes – nid yw'r fynedfa newydd i'r orsaf a'r rampiau i'r platfformau'n cydymffurfio ond maent yn addas i'w defnyddio, gyda gofal
Aberdâr	1	Swyddfa Docynnau	Oes	Dolen sain, cownter sy'n cydymffurfio	Oes, ond mae'r ramp o'r ffordd yn serth ac nid oes manau gorffwys arno. Mae graddiant llai gan y ramp ar bwys y ganolfan hamdden. Nid oes cyrbiau isel yn y maes parcio.
Aberdaugleddau	1	Asiant	Dim	Dolen sain, dim cownter sy'n cydymffurfio	Oes
Aberdyfi	1	Heb staff	Dim		Oes
Abererch	1	Heb staff	Dim		Mae'r man gollwng teithwyr ar ochr arall y ffordd o'r orsaf. Mae modd cyrraedd y platfform trwy gât i'r platfform a llethr i'r gât o'r ffordd.
Abergele a Phensarn	2	Heb staff	Dim		Oes, ond mae cobls ar wyneb pont y ffordd rhwng y platfformau ac nid oes modd croesi'r ffordd i'r llwybr troed, felly ni all defnyddwyr cadeiriau olwyn fynd i'r platfform o'r maes parcio

Gorsaf	Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i drenau	Toiledau safonol	Systemau gwybodaeth i gwsmeriaid	Ystafelloedd aros a chysgodfeydd	Gorsaf gwbl hygyrch agosaf (Ystyr "Ydi" yw bod yr orsaf yn gwbl hygyrch)
Aber	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Caerffili
Abercynon	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1/2	Ydi
Aberdâr	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Ydi
Aberdaugleddau	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Ydi
Aberdyfi	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Ydi
Abererch	Oes	Nac oes	Sain, o wasgu botwm Gweledol 2013/14	Cysgodfa ar Blatfform 1	Pwllheli
Abergele a Phensarn	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Ydi

Gorsaf	Nifer platfformau	Staffio a'r cymorth sydd ar gael	Peiriannau hygyrch gwerthu tocynnau	Swyddfa docynnau	Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i'r platfform, gan gynnwys unrhyw anawsterau gyda man hygyrch i ollwng a chasglu teithwyr
Abergwaun ac Wdig	1	Heb staff	Dim		Oes
Abermaw	2	Asiant	Dim	Dolen sain, cownter sy'n cydymffurfio (ei gyrraedd trwy'r Ganolfan Croeso)	Oes
Aberpennar	2	Heb staff	Dim		Oes – fodd bynnag, mae'r rampiau i'r platfformau'n serth ac nid oes manau gorffwys arnynt, ond dylai'r canllawiau fod o gymorth
Abertawe	4	Â staff 24 awr Llun – Gwener 0300 – 2400 Sad 0700 – 2400 Sul	Oes	Dolen sain, cownter isel	Oes
Aberystwyth	1	Swyddfa Docynnau	Oes	Dolen sain, dim cownter sy'n cydymffurfio	Oes
Amwythig (Shrewsbury)	5	Â staff 0500 – 0100 Llun i Sad; 0700 – 0045 Sul	Oes	Dolen sain, cownter sy'n cydymffurfio	Oes
Arberth	1	Heb staff	Dim		Oes – fodd bynnag, mae'r ddynesfa i'r orsaf yn hir iawn, ac nid yw ar ein prydles ni. Argymhellir y dylid darparu meinciau i bobl ag anawsterau symud bob 50 metr
Bae Caerdydd	1	Heb staff	Dim		Gweler y nodyn ym mlaen y llyfryn hwn
Bae Colwyn	2	Â staff 0630 - 2114 Llun i Sad; 1030-1830 Sul	Oes	Dolen sain, cownter sy'n cydymffurfio	Oes, ond nid oes cyrb isel o'r maes parcio i'r llwybr troed
Baglan	2	Heb staff	Dim		Oes, ond nid oes llwybr diogel o'r maes parcio i Blatfform 1 gan nad oes palmant ar Seaward Parade. Mae'r ramp i Blatfform 1 yn fyr ac yn serth, gyda chamber croes, ond mae ganddo ganllawiau

Gorsaf	Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i drenau	Toiledau safonol	Systemau gwybodaeth i gwsmeriaid	Ystafelloedd aros a chysgodfeydd	Gorsaf gwbl hygrych agosaf (Ystyr "Ydi" yw bod yr orsaf yn gwbl hygrych)
Abergwaun ac Wdig	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Ydi
Abermaw	Oes	Nac oes	Gweledol a sain	Dim (canopïau'r orsaf)	Ydi
Aberpennar	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Fernhill neu Benrhiwceiber
Abertawe	Oes	Oes	Gweledol a sain	Cyntedd yr orsaf ac ystafelloedd aros	Ydi
Aberystwyth	Oes	Oes	Gweledol a sain	Cysgodfa ar Blatfform 1	Ydi
Amwythig (Shrewsbury)	Oes	Oes, yn ystod oriau staffio	Gweledol a sain	Ystafelloedd aros ar Blatfformau 3 a 4/7	Ydi
Arberth	Dim mynediad i gadeiriau olwyn i drenau	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Hendy-gwyn
Bae Caerdydd	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Gweler y nodiadau – anawsterau yn Heol y Frenhines
Bae Colwyn	Oes	Oes, yn ystod oriau staffio	Gweledol a sain	Ystafell aros ar Blatfform 1, canopïau ar blatfformau	Ydi
Baglan	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Ydi

Gorsaf	Nifer platfformau	Staffio a'r cymorth sydd ar gael	Peiriannau hygyrch gwerthu tocynnau	Swyddfa docynnau	Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i'r platfform, gan gynnwys unrhyw anawsterau gyda man hygyrch i ollwng a chasglu teithwyr
Bangor	2	Â staff 0535 – 2245 Llun – Sad; 0900 – 2300 Sul	Oes	Dolen sain, cownter sy'n cydymffurfio	Oes
Bargoed	2	Asiant	Dim		Oes – lifftiau i'r platfformau o bont droed gyda mynediad gwastad i bont droed o ochr y dref ar hyd llwybr troed
Betws-y-coed	1	Heb staff	Dim		Oes
Birchgrove	1	Heb staff	Dim		Oes
Blaenau Ffestiniog	1	Heb staff	Dim		Oes
Bodorgan	2	Heb staff	Dim		Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i'r platfformau – mae'r ffordd i'r orsaf ar hyd llwybr serth trwy fuarth fferm, wynebau garw a gât drom â sbring. Mae'r llwybr ar draws y trac wedi'i wneud o flociau pren garw ac anwastad, nid oes unrhyw ddiogelwch yno, ac mae'r mynediad iddo ar hyd rampiau nad ydynt yn cydymffurfio.
Borth	1	Heb staff	Dim		Oes
Brithdir	1	Heb staff	Dim		Oes
Broome	1	Heb staff	Dim		Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn. Mynediad i'r platfform ar hyd llwybr ag wyneb garw gyda gât anhydrin (yn agor ar oleddf, clicied ar y top) a ramp sy'n fwy serth nag 1:12 gydag wyneb garw ac wyneb gro mân sydd gan y platfform
Bucknell	1	Heb staff	Dim		Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn. Mynediad i'r platfform ar hyd llwybr ag wyneb garw (blociau a llaid) a ramp sy'n fwy serth nag 1:12 wrth y fynedfa i'r platfform

Gorsaf	Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i drenau	Toiledau safonol	Systemau gwybodaeth i gwsmeriaid	Ystafelloedd aros a chysgodfeydd	Gorsaf gwbl hygrych agosaf (Ystyr "Ydi" yw bod yr orsaf yn gwbl hygrych)
Bangor	Oes	Oes, yn ystod oriau staffio	Gweledol a sain	Ystafell aros ar Blatfform 1, cysgodfa ar Blatfform 2	Ydi
Bargoed	Oes	Nac oes	Gweledol	Ystafell aros ar Blatfform 1, cysgodfa ar Blatfform 2	Ydi
Betws-y-coed	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Llanrwst
Birchgrove	Oes	Nac oes		Cysgodfa ar Blatfform 1	Ydi
Blaenau Ffestiniog	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Ydi
Bodorgan	Nac oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 2	Bangor neu Gaergybi
Borth	Oes	Nac oes	Gweledol	Dim (canopiâu'r orsaf)	Ydi
Brithdir	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Ydi
Broome	Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i drenau	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Trefyclawdd
Bucknell	Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i drenau	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Trefyclawdd

Gorsaf	Nifer platfformau	Staffio a'r cymorth sydd ar gael	Peiriannau hygyrch gwerthu tocynnau	Swyddfa docynnau	Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i'r platfform, gan gynnwys unrhyw anawsterau gyda man hygyrch i ollwng a chasglu teithwyr
Builth Road	1	Heb staff	Dim		Oes
Bwcle	2	Heb staff	Dim		Rhannol – croesfan droed heb ddiogelwch rhwng y platfformau
Bynea	2	Heb staff	Dim		Oes
Caer (Chester)	7	Â staff 24 awr Llun - Sul	Oes	Dolen sain, cownter lefel holltedig	Oes
Caerdydd Canolog	7	Â staff 0400 – 0100 Llun – Gwener 0400 – 0030 Sad 0700 – 0030 Sul	Oes	Dolen Sain Cownter isel	Oes, mae mynediad gwastad i'r platfformau gyda lifftiau
Caerdydd Heol y Frenhines	3	Â staff 0530 – 2359 Llun – Sad 0800 – 2300 Sul	Oes	Dolen sain, dim cownter sy'n cydymffurfio	Gweler y nodyn ym mlaen y llyfryn hwn
Caerffili	2	Swyddfa Docynnau	Oes	Dolen sain, dim cownter sy'n cydymffurfio	Oes – Fodd bynnag, yr unig ffordd i gyrraedd y platfform i Rymni yw dros bont droed neu ar hyd ramp hir sy'n fwy serth nag 1:12
Caerfyrddin	2	Â staff 24 awr Llun - Sul	Oes	Dolen sain, cownter sy'n cydymffurfio	Oes – mae modd cyrraedd Platfform 2 dros y groesfan i deithwyr rhwng platfformau 1 a 2, ar waelod y rampiau
Caergwre	2	Heb staff	Dim		Rhannol – Mynediad ar hyd grisiau i'r platfform i Wrecsam; ramp serth i Blatfform 2; croesfan droed rhwng y platfformau.
Caergybi	3	Â staff 24 awr Llun – Gwener; 0001 – 2145 Sad; 0700 – 2400 Sul	Oes (cardiau'n unig)	Dolen sain, cownter sy'n cydymffurfio	Oes

Gorsaf	Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i drenau	Toiledau safonol	Systemau gwybodaeth i gwsmeriaid	Ystafelloedd aros a chysgodfeydd	Gorsaf gwbl hygrych agosaf (Ystyr "Ydi" yw bod yr orsaf yn gwbl hygrych)
Builth Road	Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i drenau	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Llandrindod
Bwcle	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Ydi
Bynea	Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i drenau	Nac oes	Ffôn	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Pantyffynnon
Caer (Chester)	Oes	Oes, ar bob platfform	Gweledol a sain	1 ystafell aros yng nghyntedd yr orsaf, 1 ystafell aros ar Blatfform 4/7, canopiau	Ydi
Caerdydd Canolog	Oes	Oes, pob platfform	Gweledol a sain	Ystafelloedd aros ar Blatfformau 1/2, 3/4 a 5/6; Cysgodfa ar Blatfform 0	Ydi
Caerdydd Heol y Frenhines	Oes	Oes, Platfform 3/4	Gweledol a sain	Ystafelloedd aros ar Blatfformau 3/4, Cysgodfa ar Blatfform 2	Ydi, ac eithrio gwasanaethau i Fae Caerdydd – defnyddiwrch fws Bay Car
Caerffili	Oes	Toiledau cyhoeddus ym maes parcio'r Cyngor	Gweledol	1 ystafell aros, 1 gysgodfa	Ydi
Caerfyrddin	Oes	Oes, yn ystod oriau staffio	Gweledol a sain	1 ystafell aros, 1 gysgodfa	Ydi
Caergwrle	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Cefn-y-bedd
Caergybi	Oes	Yn ystafell aros Stena gerllaw	Gweledol	Yn ystafell aros Stena gerllaw	Ydi

Gorsaf	Nifer platfformau	Staffio a'r cymorth sydd ar gael	Peiriannau hygyrch gwerthu tocynnau	Swyddfa docynnau	Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i'r platfform, gan gynnwys unrhyw anawsterau gyda man hygyrch i ollwng a chasglu teithwyr
Caersws	1	Heb staff	Dim		Oes – Fodd bynnag, mae mynedfa newydd â ramp wedi'i gosod ond mae'n fwy serth nag 1:12
Caldicot	2	Heb staff	Dim		Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn. Rampiau'r ddau blatfform yn fwy serth nag 1:12
Cas-gwent	2	Asiant	Dim	Dolen sain, dim cownter sy'n cydymffurfio	Rhannol – nid oes modd cyrraedd y platfform i Gasnewydd gan fod yna bont droed â grisiau
Casnewydd	4	Â staff 24 awr Llun - Sul	Oes	Dolen sain, cownter sy'n cydymffurfio	Oes
Castell Nedd	2	Â staff 0600 – 2200 Llun - Sul	Oes	Dolen sain, cownter sy'n cydymffurfio	Rhannol – modd cyrraedd y platfform i Abertawe dros bont droed neu gyda staff yn hebrwng dros groesfan berfa yn ystod oriau staffio
Cathays	2	Heb staff (cymorth â thocynnau yn yr orsaf pan fo'r gatiâu tocynnau ar waith)	Oes	Dolen sain, cownter sy'n cydymffurfio	Rhannol – gweler y nodyn ym mlaen y ddogfen hon.
Cefn-y-bedd	2	Heb staff	Dim		Ydi, fodd bynnag croesfan berfa yn unig sydd rhwng y platfformau ac nid yw'r rampiau'n cydymffurfio
Church Stretton	2	Heb staff	Dim		Oes – Fodd bynnag, mae angen mynd tipyn o bellter ar y ffordd rhwng platfformau i newid trenau
Cilgeti	1	Heb staff	Dim		Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn gan fod y llwybr at y platfform yn anwastad.
Cilmeri	1	Heb staff	Dim		Nac oes. Mae'r mynediad i'r platfform trwy gât gyda chlo sbring ar ei phen ac mae'r ramp yn fwy serth nag 1:12

Gorsaf	Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i drenau	Toiledau safonol	Systemau gwybodaeth i gwsmeriaid	Ystafelloedd aros a chysgodfeydd	Gorsaf gwbl hygrych agosaf (Ystyr "Ydi" yw bod yr orsaf yn gwbl hygrych)
Caersws	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Ydi
Caldicot	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Casnewydd
Cas-gwent	Oes	Nac oes (mae toiled yn y caffi cyfagos ond nid toiled i'r orsaf yw hwn)	Gweledol	1 gysgodfa	Lydney neu Gaerloyw (Gloucester)
Casnewydd	Oes	Oes, yn ystod oriau staffio	Gweledol a sain	Ystafelloedd aros ar Blatfformau 1 a 2/3, cysgodfa ar Blatfform 4	Ydi
Castell Nedd	Oes	Oes, yn ystod oriau staffio	Gweledol a sain	1 ystafell aros a chanopiâu	Ydi
Cathays	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Caerdydd Heol y Frenhines
Cefn-y-bedd	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Ydi
Church Stretton	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Amwythig (Shrewsbury)
Cilgeti	Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i drenau	Nac oes	Ffôn	Cysgodfa ar Blatfform 1	Saundersfoot
Cilmeri	Nac oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Garth

Gorsaf	Nifer platfformau	Staffio a'r cymorth sydd ar gael	Peiriannau hygyrch gwerthu tocynnau	Swyddfa docynnau	Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i'r platfform, gan gynnwys unrhyw anawsterau gyda man hygyrch i ollwng a chasglu teithwyr
Clarbeston Road	2	Heb staff	Dim		Rhannol – mae'r mynediad i'r platfform i Gaerfyrddin ar hyd ramp sy'n fwy serth nag 1:12
Clunderwen	2	Heb staff	Dim		Oes
Cnwclas	1	Heb staff	Dim		Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn. Mae'r llwybr i'r platfform yn anwastad ac yn serth, ond mae y tu allan i dir y brydles
Cogan	2	Heb staff	Dim		Rhannol – mae'r unig fynediad i'r platfform i Gaerdydd dros bont droed â 44 o risiau neu ar hyd ramp serth, gyda grisiau, o New Road
Conwy	2	Heb staff	Dim		Oes
Coryton	1	Heb staff	Dim		Oes – mae'r mynediad i'r platfform ar hyd ramp byr sy'n fwy serth nag 1:12 (i fyny i'r platfform)
Craven Arms	2	Heb staff	Dim		Oes – Fodd bynnag, mae angen mynd tipyn o bellter ar y ffordd rhwng platfformau i newid trenau
Cricieth	1	Heb staff	Dim		Oes
Crosskeys	2	Heb staff	Oes		Oes – Fodd bynnag, mae'r ffordd at yr orsaf ar fryn serth iawn
Cwmbach	1	Heb staff	Dim		Oes
Cwmbrân	2	Swyddfa Docynnau	Dim	Dolen sain, cownter y gellir addasu ei uchder	Oes
Cydweli	2	Heb staff	Dim		Oes
Cyffordd Dyfi	2	Heb staff	Dim		Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn. Llwybr hir iawn heb wyneb caled at yr orsaf, y ceir llifogydd arno'n AML; mae hefyd yn cynnwys croesi'r cledrau.

Gorsaf	Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i drenau	Toiledau safonol	Systemau gwybodaeth i gwsmeriaid	Ystafelloedd aros a chysgodfeydd	Gorsaf gwbl hygrych agosaf (Ystyr "Ydi" yw bod yr orsaf yn gwbl hygrych)
Clarbeston Road	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Ydi
Clunderwen	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Ydi
Cnwclas	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Trefyclawdd
Cogan	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Eastbrook
Conwy	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Ydi
Coryton	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Ydi
Craven Arms	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Amwythig (Shrewsbury)
Cricieth	Oes	Nac oes	Gweledol	Dim (canopiâu'r orsaf)	Ydi
Crosskeys	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Ydi
Cwmbach	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Ydi
Cwmbrân	Oes	Oes, yn ystod oriau agor y Swyddfa Docynnau	Gweledol a sain	Ystafell aros a chysgodfa	Ydi
Cydweli	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Ydi
Cyffordd Dyfi	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1/2	Borth (newid yng Nghyffordd Dyfi am Bwllheli)

Gorsaf	Nifer platfformau	Staffio a'r cymorth sydd ar gael	Peiriannau hygyrch gwerthu tocynnau	Swyddfa docynnau	Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i'r platfform, gan gynnwys unrhyw anawsterau gyda man hygyrch i ollwng a chasglu teithwyr
Cyffordd Llandudno	4	Â staff 0500 – 2300 Llun – Sad; 0900 – 2300 Sul	Oes	Dolen sain, cownter sy'n cydymffurfio	Oes
Cyffordd Twannel Hafren	4	Asiant	Dim	Dolen sain, dim cownter sy'n cydymffurfio	Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i Blatfformau 1, 2 a 3; mae'r mynediad iddynt dros bont droed â grisiau. Mae modd cyrraedd Platfform 4 yn syth o faes parcio'r orsaf.
Cynghordy	1	Heb staff	Dim		Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn. Mae'r mynediad i'r platfform ar hyd 3 gris, ramp byr sy'n fwy serth nag 1:12 a gât
Danescourt	2	Heb staff	Dim		Oes
Deganwy	2	Heb staff	Dim		Oes – mae'r mynediad o'r manau parcio nesaf at y fynedfa o'r maes parcio i'r platfform i Gyffordd Llandudno, dros y bont droed (mae'r manau hyn ag wyneb caled ond heb eu marcio i gwsmeriaid anabl). Mae'r mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i'r platfform i Landudno dros y groesfan wastad a ramp y platfform, gyda chanllawiau.
Dinas Powys	2	Heb staff	Dim		Oes, ond nid oes goleuadau allanol i'r mynedfeydd i'r platfformau. Mae angen canllawiau yn yr isffordd.
Dinas Rhondda	1	Heb staff	Dim		Oes
Dinbych-y-pysgod	2	Heb staff	Dim		Rhannol – Mae'r mynediad i'r platfform i Doc Penfro ar hyd pont droed â 51 o risiau neu groesfan berfa
Dociau'r Barri	2	Heb staff	Dim		Rhannol – Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i'r platfform ynysol (mae'r llwybr mynediad i'r ddau blatfform yn fwy serth nag 1:12 o'r isffordd)
Doc Penfro	1	Heb staff	Dim		Oes

Gorsaf	Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i drenau	Toiledau safonol	Systemau gwybodaeth i gwsmeriaid	Ystafelloedd aros a chysgodfeydd	Gorsaf gwbl hygrych agosaf (Ystyr "Ydi" yw bod yr orsaf yn gwbl hygrych)
Cyffordd Llandudno	Oes	Oes, yn ystod oriau staffio	Gweledol a sain	Ystafell aros yng nghyntedd yr orsaf, canopiâu ar y platfformau	Ydi
Cyffordd Twnnel Hafren	Oes	Nac oes	Gweledol a sain	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1, 2/3 a 4	Casnewydd
Cynghordy	Oes	Nac oes	Ffôn Gweledol 2013/14	Cysgodfa ar Blatfform 1	Garth neu Langadog
Danescourt	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Ydi
Deganwy	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Ydi
Dinas Powys	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Ydi
Dinas Rhondda	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Ydi
Dinbych-y-pysgod	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Penalun
Dociau'r Barri	Oes	Nac oes	Gweledol	Canopi a chysgodfa wynt ar Blatfformau 1/2	Ynys y Barri
Doc Penfro	Oes	Nac oes	Gweledol	Canopi yn unig	Ydi

Gorsaf	Nifer platfformau	Staffio a'r cymorth sydd ar gael	Peiriannau hygyrch gwerthu tocynnau	Swyddfa docynnau	Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i'r platfform, gan gynnwys unrhyw anawsterau gyda man hygyrch i ollwng a chasglu teithwyr
Dolau	1	Heb staff	Dim		Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn. Mae'r mynediad i'r platfform ar hyd ramp sy'n fwy serth nag 1:12 ac sydd ag wyneb garw
Dolgarrog	1	Heb staff	Dim		Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn o fynedfa'r orsaf gan fod yna lethr gro mân rhwng y gât a ramp y platfform. Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i'r platfform o'r brif ffordd gan fod gan y lôn wyneb gwael a chobls mewn manau.
Dolwyddelan	1	Heb staff	Dim		Oes
Dyffryn Ardudwy	1	Heb staff	Dim		Nac oes. Mae gan y maes parcio wyneb garw ac mae mewn cyflwr gwael; mae'r llwybr troed yn croesi'r trac i'r platfform (hefyd, mae yna gatieau traffig i'r lôn o boptu'r llinell).
Eastbrook	2	Heb staff	Dim		Oes
Eglwys Newydd	1	Heb staff	Dim		Oes
Fernhill	1	Heb staff	Dim		Oes
Frodsham	2	Heb staff	Dim		Oes
Ffairfach	1	Heb staff	Dim		Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn. Mae'r mynediad i'r platfform trwy gât gul, gyda bollt ar ei phen, a ramp byr sy'n fwy serth nag 1:12.
Ffynnon Taf	2	Swyddfa Docynnau	Dim	Dolen sain, dim cownter sy'n cydymffurfio	Oes; fodd bynnag, taith hir ar hyd y ffordd o'r platfform i'r gogledd i'r maes parcio
Garth (Morg. Ganol)	1	Heb staff	Dim		Oes, ond mae angen canllaw i gwsmeriaid ag anawsterau symud
Garth (Powys)	1	Heb staff	Dim		Oes

Gorsaf	Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i drenau	Toiledau safonol	Systemau gwybodaeth i gwsmeriaid	Ystafelloedd aros a chysgodfeydd	Gorsaf gwbl hygrych agosaf (Ystyr "Ydi" yw bod yr orsaf yn gwbl hygrych)
Dolau	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Llandrindod
Dolgarrog	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Llanrwst neu Lan Conwy
Dolwyddelan	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Ydi
Dyffryn Ardudwy	Nac oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Abermaw neu Dalybont
Eastbrook	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Ydi
Eglwys Newydd	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Ydi
Fernhill	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Ydi
Frodsham	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Ydi
Ffairfach	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Rhydaman
Ffynnon Taf	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Ydi
Garth (Morg. Ganol)	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Ydi
Garth (Powys)	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Ydi

Gorsaf	Nifer platfformau	Staffio a'r cymorth sydd ar gael	Peiriannau hygyrch gwerthu tocynnau	Swyddfa docynnau	Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i'r platfform, gan gynnwys unrhyw anawsterau gyda man hygyrch i ollwng a chasglu teithwyr
Gilfach Fargoed	2	Heb staff	Dim		Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn. Mae'r mynediad i'r ddau platfform ar hyd rampiau hir sy'n fwy serth nag 1:12. Mae wynebau anwastad gan y rampiau. Mae pont ffordd yn croesi'r trac.
Glan Conwy	1	Heb staff	Dim		Oes
Glan-y-fferi	2	Heb staff	Dim		Rhannol – mae'r mynediad i'r platfform i Gaerfyrddin dros groesfan wastad a ramp sy'n fwy serth nag 1:12 a gât nad yw'n cydymffurfio; mae'r mynedfeydd o'r maes parcio i'r platfform i Abertawe a'r bont droed ar lethr ar i fyny a thir garw yw'r maes parcio.
Gobowen	2	Asiant	Dim	Dolen sain, cownter sy'n cydymffurfio	Oes
Gogledd Llanrwst	2	Heb staff	Dim		Rhannol – croesfan berfa yw'r unig fynediad i'r platfform i Flaenau; mae'r ddynesfa i'r fynedfa i'r platfform o'r maes parcio'n serth ac ar ongl – gallai achosi i gadeiriau olwyn droi drosodd
Grangetown	2	Heb staff	Dim		Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn. Dim ond ar hyd 42 o risiau o'r ffordd islaw mae mynediad i'r ddau platfform (platfform ynysol)
Gwersyllt	2	Heb staff	Dim		Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn yn syth o'r ffordd gan mai dim ond ar hyd grisau o'r ffordd mae'r mynediad i'r platfform. Ni all cadeiriau olwyn fynd i'r platfform i Wrecsam ond gan ddefnyddio rampiau serth ar bennau'r platfformau a chroesfan berfa
Harbwr Abergwaun	1	Heb staff	Dim		Oes, fodd bynnag, mae'r mynediad i'r platfform ar hyd ramp serth ar ben y platfform yn syth oddi ar y ffordd fynediad a'r groesfan wastad.
Harlech	2	Heb staff	Dim		Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn. Mae wyneb garw gan y maes parcio bach. Mae'r ramp i'r platfform i Abermaw yn fwy serth nag 1:12. Mae'r mynediad i'r platfform i Bwllheli ar hyd pont droed â grisau neu dros groesfan droed sydd â byrddau garw a dim diogelwch
Helsby	4	Heb staff	Dim		Rhannol – mae'r mynediad i dri platfform (2, 3 a 4) ar hyd grisau'n unig

Gorsaf	Mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i drenau	Toiledau safonol	Systemau gwybodaeth i gwsmeriaid	Ystafelloedd aros a chysgodfeydd	Gorsaf gwbl hygyrch agosaf (Ystyr "Ydi" yw bod yr orsaf yn gwbl hygyrch)
Gilfach Fargoed	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Bargoed
Glan Conwy	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfform 1	Ydi
Glan-y-fferi	Nac oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Cydweli neu Gaerfyrddin Y platfformau i gael eu codi erbyn mis Rhagfyr 2014
Gobowen	Oes	Yn swyddfa'r asiantaeth teithio / swyddfa docynnau	Gweledol a sain	Dim (canopiâu'r orsaf)	Ydi
Gogledd Llanrwst	Dim mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn i drenau	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Llanrwst
Grangetown	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfa ar Blatfformau 1/2	Caerdydd Canolog neu Heol Dingle
Gwersyllt	Oes	Nac oes	Gweledol	Cysgodfeydd ar Blatfformau 1 a 2	Wreccsam Cyffredinol
Harbwr Abergwaun	Oes	Yn adeilad Stena gerllaw	Gweledol	Dim	Ydi
